

Cwricwlwm Newydd i Gymru: Astudiaethau Achos

Mater Arbennig

New Curriculum for Wales: Case Studies

Special Edition

Spring 2023





Cyflwyniad

Croeso i'r rhifyn hynod arbennig hwn o Astudiaethau Achos GEM. Wrth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael ei ddatblygu a'i ysgrifennu, bu GEM Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, arbenigwyr addysg ac arbenigwyr dysgu mewn amgueddfeydd i sicrhau bod amgueddfeydd Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu gwasanaeth cyfredol, arloesol a chreadigol mewn perthynas ag addysg treftadaeth i'w cynulleidfaoedd wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno i ysgolion yng Nghymru.

Mae'r astudiaethau achos yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau o amgueddfeydd a gafodd gyllid gan Lywodraeth Cymru, trwy gyfrwng cynllun microgrant GEM Cymru, i helpu i ddatblygu eu gwasanaethau dysgu wrth i'r cwricwlwm ddechrau cael ei gyflwyno yn ystod Hydref / Gaeaf 2022/23. Mae GEM yn ddiolchgar iawn i'r amgueddfeydd hyn am rannu llwyddiannau, heriau a gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod cychwynol hwn pan gyflwynwyd y cwricwlwm.

Ymhellach, ceir astudiaethau achos sy'n deillio o waith addysgu beunyddiol lle mae athro a darparwr ITE (Addysg Gychwynol i Athrawon) yn trafod eu hymateb i'r Cwricwlwm newydd a'r modd y maent yn ymgysylltu â threftadaeth Cymru a'r maes celfyddydol ehangach, ochr yn ochr ag enghraifft o brosiect gan yr Amgueddfa Genedlaethol.

Gobeithio y bydd yr astudiaethau achos hyn yn cynnig cipolwg ichi ar y modd y mae amgueddfeydd yng Nghymru yn dechrau ar y broses o addasu a diwygio eu gwasanaethau dysgu er mwyn iddynt allu ymgysylltu'n llwyr â chwricwlwm newydd ac arloesol Cymru.

Mae Gem Cymru yn ddiolchgar i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru am ariannu'r cyhoeddiad hwn ac am y cyngor a'r cymorth a gafwyd drwy gydol y blynyddoedd diwethaf.



Robin Johnson
Ymgynghorydd
Amgueddfeydd GEM
(Ymgynghori a
Hyfforddiant
Cwricwlwm Cymru)

Introduction

Welcome to this very special edition of GEM Case studies. As the new Curriculum for Wales has been developed and written, GEM Cymru have been working alongside the Welsh Government, education experts and museum learning specialists to ensure that museums in Wales are in the very best position to provide an up to date, innovative and creative heritage education service to their audiences as the new curriculum is introduced to schools in Wales.

The case studies included in this publication include examples of museums who have received funding from the Welsh Government, via the GEM Cymru micro grant scheme, to help develop their learning services as the curriculum was first rolled out in Autumn / Winter 2022/23. GEM are very grateful to these museums for sharing their success, challenges and lessons learned during this initial period of curriculum introduction.

There are also case studies from the 'chalk face' where a teacher and an ITE provider discuss their response to the new Curriculum and how they are engaging with the heritage of Wales and the wider arts field, alongside an example of a National Museum project.

We hope that these case studies will give an insight into how museums in Wales are beginning their process of adapting and amending their learning services to fully engage with the new, innovative and groundbreaking Curriculum for Wales.

Gem Cymru are grateful to the Welsh Government, Culture & Sport Division for funding this publication and for their advice and support throughout the past years.



Robin Johnson
GEM Museum
Consultant
(Welsh Curriculum
Consultation and
Training)

Cynnwys



02 Cyflwyniad

Robin Johnson

06 Ymateb i'r Cwricwlwm Newydd

Lowri Ifor

Amgueddfa Cymru

08 Ymgorffori'r Cwricwlwm

Newydd yn y Rhaglen Ddysgu

Mari Fforde

Ymddiriedolaeth Castell y Gelli

10 Ymwybyddiaeth Ofalgar yn yr Amgueddfa: Prosiect Llesiant yn y Ganolfan Eifftaidd, Abertawe

Hannah Sweetapple

Swyddog Dysgu ac Ymgysylltu,
Y Ganolfan Eifftaidd: Amgueddfa
Hynafiaethau yr Aifft

12 Gwisgoedd Replica Oes Fictoria

Charlotte Barry,

Christopher Parry

Amgueddfa ac Oriel Gelf
Castell Cyfarthfa



© Keith O'Brien



14 Prentisiaid Addysg Dyffryn Maes Glas
Sarah Pevely
 Amgueddfeydd Aura /
 Dyffryn Maes Glas

16 Y Celfyddydau Mynegiannol 2: Adnodd Dysgu i Ysgolion – "Cysylltu â Chynefin"
Morrigan Mason,
Louise Morgan
 Gwasanaeth Amgueddfeydd
 Sir Gaerfyrddin, Tîm Gwella
 Ysgolion Sir Gaerfyrddin,
 Yr Adran Addysg

18 Adnoddau Addysg Cofio Hedd Wyn
Naomi Jones
 Yr Ysgwrn, Awdurdod Parc
 Cenedlaethol Eryri

20 "Nid Chwarae Plant"
Suryiah Evans
 Amgueddfa Penmaenmawr

22 Defnyddio Casgliadau a Dderbynwyd ar gyfer Dysgu
Esta Lewis
 Gwasanaeth Treftadaeth CBS
 RhCT / Parc Treftadaeth Cwm
 RhonddaHeritage Park

24 Creu Partneriaethau gydag Ysgolion ADY gan ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru
Esta Lewis
 Gwasanaeth Treftadaeth CBS
 RhCT / Parc Treftadaeth Cwm
 Rhondda

26 Morio!
Jina Gwyrfai
 Amgueddfa Forwrol Llŷn

28 Cwricwlwm i Gymru: Safbwynt ITE (Addysg Gychwynnol i Athrawon)
Eve Oliver
 Prifysgol Metropolitan Caerdydd

30 "Cynefin" Prosiect Llyfr Ysgrifennu Creadigol ar gyfer Amgueddfa Aberdaugleddau
Sue Davies
 Sue E L Davies Cwmdeithion
 Diwylliannol a Threftadaeth

32 Mabwysiadu Cydfuddiannol: Cydweithio Creadigol
Derfel Thomas
 Ysgol Tudno, Llandudno

34 Tŷ Tredegar: Treialu'r Rhaglen i Ysgolion
Emily Price
 Tŷ Tredegar, Yr Ymddiriedolaeth
 Genedlaethol

Ymateb i'r Cwricwlwm Newydd

Crynodeb

Mae Amgueddfa Cymru wedi rhoi amryfal dulliau ar waith i gynorthwyo athrawon ac ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. Hefyd, rydym yn rhedeg rhaglen hybrid yn awr – mae ymweliadau wyneb yn wyneb wedi dychwelyd i'n safleoedd ac rydym wedi parhau â'n rhaglen ddysgu rithwir.

Cefndir

Amgueddfa Cymru yw'r darparwr dysgu mwyaf yng Nghymru y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Rydym yn cynnal ymweliadau wedi'u hwyluso/heb eu hwyluso ar ein saith safle, yn ogystal â rhaglen ddysgu rithwir a gynhelir dros Teams.

Yr her

Er mwyn hwyluso ysgolion i bontio tuag at y cwricwlwm newydd, roedd yn hollbwysig inni allu cyfathrebu'n glir pa mor berthnasol yw ein harlwy i wahanol agweddau ar y Cwricwlwm newydd.

Dulliau gweithredu

Aethom ati i gynnig amryfal gyfleoedd hyfforddi i'n staff er mwyn meithrin eu dealltwriaeth, gan adolygu wedyn y sesiynau a'r adnoddau i gyd a chyflwyno newidiadau angenrheidiol er mwyn creu gwell cysylltiadau â'r cwricwlwm. Fe wnaethom ail-lunio iaith ein sesiynau ar ein gwefan er mwyn cynnwys is-bennawd lle dangosir pa ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig y mae'r sesiynau yn eu bodloni.

Trwy fynd i'r afael â gwaith trylwyr gydag ysgolion partner bu modd inni dreialu dulliau newydd ar ein safleoedd, a thrwy barhau â'r ymweliadau rhithwir bu modd inni gyrraedd amrywiaeth ehangach o ysgolion ledled Cymru.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Gwneud i'r staff deimlo'n hyderus i gyfathrebu a chyflwyno ein rhaglenni yng ngoleuni'r Cwricwlwm Newydd
- Cynorthwyo ac ennyn brwdfrydedd ysgolion gyda'n harlwy
- Cyrraedd ychwaneg o ysgolion trwy gyfrwng rhaglen hybrid

Yr allbynnau a fwriadwyd

- Cynnydd yn nifer yr archebion
- Adolygu'r rhaglen ddysgu ar draws ein safleoedd er mwyn sicrhau ei bod yn barod at y cwricwlwm

Rhwystrau a phroblemau

Daeth y newid hwn o ran y cwricwlwm ar adeg anodd i ysgolion, a hwythau'n gweithio i adfer ar ôl pandemig y coronafeirws. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd yn sgil siarad â nifer o ysgolion ac ymarferwyr addysg, mae gwahanol ysgolion wedi cyrraedd gwahanol gyfnodau o ran gwireddu'r cwricwlwm newydd a bod yn gyfarwydd â'i iaith a'i anghenion. Wrth i ysgolion symud tuag at gynllunio'u cwricwlwm eu hunain trwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o bynciau a dulliau, rhaid i Amgueddfa Cymru feddwl yn fwy thematig a

chyfathrebu'n effeithiol sut y gellir defnyddio ein sesiynau i ddiwallu amrywiaeth o anghenion y cwricwlwm.

Y canlyniadau gwirioneddol

- Mae'r staff wedi cael eu huwchgilio er mwyn creu a chyflwyno ein rhaglen yng ngoleuni'r Cwricwlwm Newydd.
- Mae ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol ac mae llawer ohonynt wedi nodi sut y mae ein sesiynau wedi ategu agweddau penodol ar eu cwricwlwm.
- Mae gwaith trylwyr gydag ysgolion partner wedi tynnu sylw at y math o gymorth y mae athrawon ei angen gennym ni fel amgueddfa, gan lywio ymarfer ehangach ar draws ein rhaglen.
- Ceir galw o hyd am wasanaeth rhithwir ochr yn ochr â'r cynnydd mewn ymweliadau yn y cnawd. Mae'r dull hybrid hwn hefyd yn esgor ar gyfleoedd i gyrraedd ychwaneg o ddysgwyr.





” Rydym wedi gweithio’n thematig, gan gyfuno casgliadau ledled Cymru er mwyn creu e-lyfrau ac adnoddau thematig newydd.



Yr allbynnau gwirioneddol

- Rydym wedi diweddarau ein sesiynau presennol ar ôl cael adborth gan ysgolion ynglŷn â’r agweddau sydd, yn eu tyb nhw, yn fwyaf defnyddiol i’w cwricwlwm.
- Rydym wedi gweithio’n thematig, gan gyfuno casgliadau ledled Cymru er mwyn creu e-lyfrau ac adnoddau thematig newydd.
- Mae sesiynau newydd, fel y sesiwn ‘Cynefin’ a dreialwyd yn Sain Ffagan a’r sesiynau Ailfframio Picton yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, wedi cael eu hymwreiddio yn y Cwricwlwm Newydd ac wedi cael cryn groeso gan ysgolion.
- Mae ein harchebion ar gyfer ymweliadau yn y cnaud yn dal i gynyddu wrth inni adfer ar ôl y pandemig Covid, ac ymddengys y byddant wedi adfer dros yr wythnosau nesaf.

Gwersi a ddysgwyd

- Er mwyn rhoi hyder i’n staff greu a chyflwyno sesiynau newydd o’r

radd flaenaf, bu’n hanfodol rhoi digon o amser a chyfle iddynt gael hyfforddiant a chyfleoedd i drafod y Cwricwlwm Newydd.

- Mae cynnwys cyfeiriadau at y cwricwlwm ar dudalennau archebu ein gwefan yn cyfleu’n effeithiol ein bod, fel sefydliad, yn barod at y cwricwlwm, gan gynnig syniad cliriach o’r modd y mae’r sesiynau’n cyd-fynd â’r gwaith ehangach.
- Mae dull mwy thematig o weithio wedi bod o fudd o ran diwallu amrywiaeth ehangach o anghenion y cwricwlwm.
- Mae cydweithio’n agos ag ysgolion partner yn hollbwysig wrth ddatblygu adnoddau newydd, oherwydd mae eu hadborth manwl yn amhrisiadwy er mwyn inni allu myfyrio ar yr effaith.
- Mae ysgolion yn gwerthfawrogi’r hyblygrwydd sy’n perthyn i’n rhaglen hybrid a’r cyfle i ryngweithio’n fwy mynych â gwrthrychau a staff yr amgueddfa drwy gydol y flwyddyn academiaidd.

Camau nesaf

- Bydd gwaith ar y wefan yn ei gwneud hi’n haws chwilio a bydd yn dangos yn gliriach i athrawon pa gysylltiadau a geir rhwng y gwahanol sesiynau.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu amrywiaeth ehangach o sesiynau a gweithgareddau thematig.
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu ein sesiynau presennol.
- Datblygu a hyrwyddo mwy ar ein rhaglen ddysgu hybrid trwy ymchwilio i feysydd a dulliau newydd.
- Parhau i greu adnoddau digidol o ansawdd da er mwyn cynorthwyo dysgwyr a fydd yn ymweld â ni yn y cnaud ac mewn modd rhithwir.


Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am raglen ddysgu Amgueddfa Cymru, gweler Dysgu | Amgueddfa Cymru

Gwybodaeth gyswilt

lowri.ifer@amgueddfacymru.ac.uk

Ymgorffori'r Cwricwlwm Newydd yn y Rhaglen Ddysgu



Crynodeb

Nod y prosiect yw datblygu ein rhaglen ddysgu i ymgorffori ein gweithgareddau gydag amcanion y Cwricwlwm Newydd ac i ddeall y Cwricwlwm Newydd ymhellach a sut y gallwn sicrhau bod ein gweithgareddau a'n hymweliadau ag ysgolion yn briodol. Rydym hefyd am ddarganfod ble mae ein gwefan yn ffioo i fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad a deall sut i gyfleu i ysgolion sut y gallwn gefnogi eu dysgu o fewn y Cwricwlwm Newydd.

Cefndir

Mae gan Gastell y Gelli gynulleidfa gymysg yn amrywio o unigolion

cyn-ysgol i rai sydd wedi ymdeol. Mae gennym Fan Dysgu Clore pwrpasol a rhaglen ddysgu sy'n canolbwyntio ar weithgareddau celf a phrint a hunaniaeth y Gelli Gandryll fel tref lyfrau yn ogystal â bod yn lleoliad treftadaeth gyda Chastell Normanaidd a phlasty Jacobeaidd.

Yr her

Gan ein bod yn lleoliad sydd newydd agor, ychydig iawn o weithgareddau sydd gennym eisoes ac mae angen i ni feithrin ac adeiladu cynulleidfa newydd sbon. Ychydig o brofiad sydd gennym gydag ymweliadau ysgol ac mae angen denu ymweliadau yn enwedig ar ôl Covid.

Dulliau gweithredu

Buom yn gweithio gydag arbenigwr cwricwlwm i edrych ar y safle a'r cyfleoedd sydd gennym ac i asesu sut y gallem ddefnyddio'r hyn a ddarparwyd i ni gan y dylunwyr dehongli ochr yn ochr ag adborth gan ymwelwyr a gwirfoddolwyr a dderbyniwyd ers i ni agor ym mis Mai 2022. Buom yn gweithio ar ddeall y Cwricwlwm newydd a sut y gellid ei gymhwyso i'r meysydd a'r pynciau sydd ar gael ar y safle. Buom hefyd yn gweithio gyda darparwyr celfyddydau i asesu sut y gall eu gweithdai gyd-fynd â nodau ac amcanion y Cwricwlwm Newydd.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Gwell dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Newydd;
- Gwell perthynas ag ysgolion lleol;
- Datblygu gweithgareddau i'w cynnig i ysgolion ac ymweliadau grŵp.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Adroddiad gan arbenigwr cwricwlwm a gweithgareddau enghreifftiol y gellir eu cyflwyno yn ystod gweithdai ac ar y wefan yn y dyfodol.

Rhwysterau a phroblemau

- Roedd amseru'n anodd gyda'r grant yn disgyn dros wyliau'r ysgol adeg y Nadolig a chyfnod pan fo ysgolion yn brysur iawn cyn y Nadolig gyda dramâu, tripiâu ayb.
- Cyfnod rhy fyr i fynd i'r afael yn wirioneddol â'r hyn sydd ei angen ac i ddatblygu cystal â phosibl.



- Cael yr amser i ganolbwyntio ar y gwaith sydd ei angen ar yr un pryd â rhedeg lleoliad treftadaeth sydd ar agor 7 diwrnod yr wythnos a rhaglen lawn.

Y canlyniadau gwirioneddol

Mae'r prosiect wedi arwain at ddealltwriaeth llawer gwell o'r cwricwlwm oherwydd y sesiynau gyda'n harbenigwr cwricwlwm. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i wneud cais am gyllid o ffynhonnell arall i gynnal gweithdai yn ystod tymor y Gwanwyn sydd â ffocws pendant ar y Cwricwlwm Newydd a chyflawni canlyniadau y gall athrawon eu nodi'n hawdd.

Yr allbynnau gwirioneddol

Rydym wedi cynnal dwy sesiwn ymgynghori ar y safle i asesu'r posibiladau dysgu yn y Castell ac edrych ar y gweithgareddau cyfredol a sut y gellid eu haddasu a'u gwella. Rydym wedi cynnwys dwy ysgol leol wrth helpu i roi adborth ar ein harlwy a'r hyn yr hoffent ei weld fel ymwelwyr ysgol a beth fyddai'n helpu yn eu cynllunio. Yr allbynnau ychwanegol oedd cyfres o weithgareddau i gyd-fynd â'r Wild Escape yr ydym wedi bod mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar eu cyfer.

Gwersi a ddysgwyd

- Mae amser o'r flwyddyn yn bwysig wrth gysylltu ag ysgolion;
- Angen mwy o amser i drefnu ymweliadau a'i gysylltu â'r holl gynllunio sydd eisoes wedi ei wneud yng nghalendr yr ysgol;
- Angen rhaglennu'r amser staff sydd ei angen i ddatblygu



gweithgareddau ochr yn ochr â rhedeg y safle;

- Peidio ag anelu at gynnwys gormod. Cadwch bethau'n syml.
- O bosibl recriwtio gwirfoddolwyr o blith y rhai sydd eisoes wedi cofrestru sydd â chefnidir addysgol i helpu gyda phrosiectau o'r math hwn.

Camau nesaf

O ganlyniad i'r prosiect, byddwn yn derbyn pecyn o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i amlygu asedau Castell y Gelli ac i ganolbwyntio ar yr hyn y byddai athrawon yn elwa fwyaf ohono wrth ddod i'r safle a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Cwricwlwm newydd. Yna gallwn weithio o'r rhain i ddatblygu gweithgareddau pellach.

Rydym hefyd wedi derbyn argymhellion ar ddeunyddiau y gallem eu prynu i'w defnyddio ym Man Dysgu Clore a fyddai'n gwella ein gweithgareddau ymhellach.

Rydym wedi cadarnhau perthynas gydag athrawon mewn dwy o'r ysgolion lleol ac wedi estyn allan i ddwy ysgol arall gyda chynnig mwy hyderus ar gyfer ymweliadau ysgol.

Rydym wedi dechrau perthynas gyda darparwyr addysgol eraill ac wedi rhannu gweithgareddau a phrofiadau.

Rhagor o wybodaeth

hwb.llyw.cymru
tasgwheel.co.uk
clyro.powys.sch.uk

Ymwybyddiaeth Ofalgar yn yr Amgueddfa: Prosiect Llesiant yn y Ganolfan Eifftaidd, Abertawe

Crynodeb

Nod y prosiect *Ymwybyddiaeth Ofalgar yn yr Amgueddfa* oedd datblygu ffordd newydd o weithio gydag ysgolion gan ganolbwyntio ar y Maes Dysgu a Phrofiad *Iechyd a Lles* newydd yn y Cwricwlwm i Gymru.

Cefndir

Gyda dyfodiad y Cwricwlwm newydd i Gymru, roeddem yn chwilio am ffyrdd creadigol o ddatblygu ein rhaglen ddysgu. Roeddem eisiau ymgysylltu ag ysgolion mewn ffyrdd newydd a chyffrous a oedd yn drawsgwricwlaidd eu natur ac yn agored i bawb.

Yr her

Ein her oedd gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gweithgareddau a oedd yn cyd-fynd â'r Maes Dysgu a Phrofiad *Iechyd a Lles* newydd.


“Gweithiom gyda phum Ysgol i ddatblygu a pheilotâ'r prosiect hwn a chafwyd dros 300 o blant yn cymryd rhan yn y peilot.


Dulliau gweithredu

Aethom ati i ddatblygu sesiwn hanner diwrnod i ysgolion a oedd yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar yn seiliedig ar wrthrychau'r amgueddfa, llwybr o amgylch yr amgueddfa yn seiliedig ar y Pum Ffordd at Lesiant (a ddefnyddir gan y GIG a Mind) a gweithgaredd crefft. Cafodd staff yr amgueddfa hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ofalgar gan Louise Thomson, Ymarferydd Ymwybyddiaeth Ofalgar a Gweithiwr Amgueddfa Proffesiynol, er mwyn ein helpu i greu'r sesiynau hyn.

Y canlyniadau a fwriadwyd

Roeddem eisiau ymgysylltu ag agwedd newydd ar y Cwricwlwm a datblygu sesiwn a fyddai'n cyfrannu at lesiant y cyfranogwyr. Byddem yn datblygu'r sesiynau hyn mewn partneriaeth ag ysgolion, ac fe fyddent yn drawsgwricwlaidd eu natur. Er y byddem yn canolbwyntio ar ein casgliad o eitemau Eifftaidd hynafol, byddai'r sesiynau'n helpu i feithrin sgiliau y gellid eu defnyddio y tu allan i amgylchedd yr amgueddfa. Hefyd, byddai'r prosiect hwn yn meithrin sgiliau'r staff ac yn datblygu





ffyrdd newydd o weithio. Anelwyd hefyd at weithio gydag ysgolion na allant, o bosibl, ymweld â ni y tu allan i'r prosiect peilot hwn.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Ein nod oedd datblygu sesiwn hanner diwrnod yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth ofalgar fel ffordd o archwilio'r Amgueddfa a'n gwrthrychau. Byddai'r sesiwn yn cael ei threialu fel rhan o'r prosiect ac yna byddai'n dod yn agwedd newydd ar ein Rhaglen Ddysgu.

Rhwystrau a phroblemau

Bu galw enfawr o du ysgolion a oedd yn dymuno cymryd rhan yn y prosiect –galw na fu modd ei ddiwallu, yn anffodus.

Y canlyniadau gwirioneddol

Cafodd tîm dysgu'r Ganolfan Eifftaidd eu hyfforddi ar Ymwybyddiaeth Ofalgar a gallant gyflwyno'r sesiynau'n hyderus. Bu'n gyfle prin i ni gael hyfforddwr allanol felly llwyddodd y Tîm Dysgu i elwa'n sylweddol ohono.

Cafwyd llawer iawn o ddi-ddordeb yn y prosiect hwn gan y sefydliad yn ehangach a gobeithiwn y bydd hyn yn datblygu i fod yn sesiynau ar gyfer oedolion a staff y brifysgol.

Bu i ni ddefnyddio ymbrelas ymwybyddiaeth ofalgar o Becyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfa UCL i dracio teimladau o lesiant. Gwelsom fod pob un o'r grwpiau a gymerodd ran yn dangos cynnydd rhwng 7% a 12%.

Gweithiom gyda phum Ysgol i ddatblygu a pheilotu'r prosiect hwn a chafwyd dros 300 o blant yn cymryd rhan yn y peilot. Roedd y ffigwr hwn yn llawer uwch na'r disgwyl ond roeddem yn falch iawn bod y cyfan wedi bod mor boblogaidd.

Yr allbynnau gwirioneddol

Rydym wedi datblygu sesiwn hanner diwrnod sy'n canolbwyntio ar y Maes Llesiant o Ddysgu a Phrofiad. Yn y sesiynau hyn rydym yn rhedeg crefft a llesiant a gweithgaredd ymwybyddiaeth ofalgar. Fe welsom o'r adborth bod ysgolion sydd â llawer mwy o brofiad o ymwybyddiaeth

ofalgar, wedi elwa llawer mwy o'r sesiynau na'r rhai dibrofiad.

Gwersi a ddysgwyr

Mae Cwricwlwm Cymru yn gwbl newydd i bawb – Mae athrawon wrthi'n dod i ddeall y Cwricwlwm newydd a sut fydd yn esblygu. Roeddem wedi disgwyl lefel debyg o ymwybyddiaeth yn yr AOLEau newydd. Cawsom ysgolion yn amrywio o fod yn profi ymwybyddiaeth ofalgar yn ddyddiol i rai nad oedd wedi gwneud unrhyw beth o'r fath.

Camau nesaf

Byddwn yn adeiladu ar y prosiect hwn a'r adborth a gafwyd gan athrawon. Yna, byddwn yn ail-lansio'r sesiynau a ddatblygwyd gan y prosiect hwn fel rhan o'n harlwy dysgu a fydd ar gael i bob ysgol.

Rhagor o wybodaeth

Hannah Sweetapple

h.e.sweetapple@swansea.ac.uk

Gwisgoedd Replica Oes Fictoria

Crynodeb

Ar hyn o bryd, mae'r amgueddfa'n cynnwys Gwisgoedd replica ar gyfer plant 6-10 oed. Bydd y prosiect newydd yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer dysgwyr CA3 ac uwch.

Cefndir

Mae gan arlwy gwasanaeth Addysg a Chymunedol Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa gysylltiad clir a chydlynol â chasgliadau'r amgueddfa a hanes cyfoethog Merthyr. Mae hyn yn ein galluogi i ddefnyddio enghreifftiau lleol a phersonol wrth drafod ac archwilio tueddiadau byd-eang, a hanes cenedlaethol a rhyngwladol. Cynigir y gwasanaeth trwy gyfrwng sesiynau a hwylusir, yn cynnwys dehongli gwisgoedd, sgysiau eistedd, crefftau, trin casgliadau a thafenni gwaith.



Yr her

Ar hyn o bryd, dim ond detholiad bach o feintiau sydd gan yr amgueddfa yn ei Chasgliad o Wisgoedd Replica Oes Fictoria, a dargedir at ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen hyd at ddysgwyr CA2 ifanc. Wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, Cynefin a'r Pedwar Diben, rydym wedi gweld cynnydd mewn archebion ar gyfer y gweithdy "haearnfeistri a gweithwyr haearn", yn benodol ymhlith grwpiau 12+ oed, grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol a grwpiau ysgolion cartref.

Dulliau gweithredu

Byddai ychwanegu gwisgoedd replica oes Fictoria yn cyfoethogi'r gweithdy 'Haearnfeistri a Gweithwyr Haearn', gan ein galluogi i gael gafael ar amrywiaeth o feintiau a darparu ar gyfer dysgwyr o feintiau gwahanol a chanddynt anghenion gwahanol. Heb wisgoedd ychwanegol o feintiau gwahanol, byddai'r sesiwn ei hun yn llai rhyngweithiol, ac o'r herwydd gallai fod yn llai cofiadwy i'r dysgwyr na phe baent yn cael dysgu trwy gyfranogi. Gallwn hefyd gynigir y gweithdy hwn i CA3+, i ddisgyblion a addysgir gartref o wahanol oedran, ac i ddysgwyr ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Ymgysylltu i raddau mwy â dysgwyr CA3 ac uwch a chynnig gweithdy "haearnfeistri a gweithwyr haearn" cyson a gwell.

- Defnyddio'r gwisgoedd ar gyfer amryfal ddiwrnodau Cenedlaethol, yn cynnwys Mis Hanes Menywod a Mis Hanes Lleol a Chymunedol, a hefyd ar ein chwaer-safle, sef Bwthyn Joseff Parry.
- Bydd y dysgwyr yn deall y diwydiant Haearn a Gwaith Haearn Cyfarthfa, yn cynnwys y gallu i adnabod rôl "Merched y Tomenni" a "Phwdleriaid". Hefyd, bydd modd iddynt bennu nodweddion a defnyddiau allweddol eu dillad, gan ddeall arwyddocâd hyn i'w hardal leol.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Bydd Prosiect Gwisgoedd Ironbridge yn cynhyrchu dwy wisg ar gyfer "Pwldleriaid" a dwy wisg ar gyfer "Merched y Tomenni".

Rhwystrau a phroblemau

Roedd y rhwystrau a'r problemau y daethpwyd ar eu traws wrth gyflawni'r prosiect yn ymwneud â darparu'r gwisgoedd. Oherwydd ansawdd a dilysrwydd y gwisgoedd replica, caiff yr holl ddarnau eu gwneud yn bwrsasol, ac o'r herwydd mae angen mwy o amser i'w darparu. Oherwydd y cyfnod byr rhwng derbyn y gwisgoedd a diwedd "ffurfiol" y prosiect, ceir llai o amser i ymgysylltu nag y disgwyliad yn arferol.

Serch hynny, ar ôl inni gael gwybod yr amserlen, bu modd inni gynllunio yn unol â'r amserlen honno a chreu gweithdy pwrpasol, o'r radd flaenaf sy'n cynnig mynediad at y gwisgoedd ac at hanesion yr unigolion o dan sylw.

“ Hefyd, bydd modd i'r dysgwyr ddychmygu a thrafod y ddau begwn a oedd yn perthyn i raddfa gymdeithasol oes Fictoria trwy ddefnyddio'r gwisgoedd.

Y canlyniadau gwirioneddol

Hefyd, bydd modd i'r dysgwyr ddychmygu a thrafod y ddau begwn a oedd yn perthyn i raddfa gymdeithasol oes Fictoria trwy ddefnyddio'r gwisgoedd. Bydd y gwisgoedd ychwanegol yn rhan o adnodd parhaol gwasanaeth yr Amgueddfa, ac yn awr gallwn eu defnyddio mewn mwy nag un ffordd gan fod meintiau ychwanegol ar gael.

Ymhellach, yn awr gallwn gynnig gweithdy "haearnfeistri a gweithwyr haearn" wedi'i hwyluso, a hynny ar y safle ac fel gweithdy allgymorth i fyfyrwyr CA3 ac ADY, oherwydd yn awr mae modd inni gynnig y sesiwn ryngweithiol safonedig.

Yr allbynnau gwirioneddol

Yn ôl y bwriad – Rydym wedi defnyddio Prosiect Gwisgoedd Ironbridge o'r blaen i greu ein set wreiddiol o wisgoedd replica, ac roeddem o'r farn ei bod hi'n bwysig inni ddefnyddio'r un cwmni oherwydd ei enw da ac er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a gwedd y gwisgoedd.

Gwersi a ddysgwyd

Roedd yr amserlenni a'r disgwyliadau yn realistig. Bu modd inni gynllunio cyfres wych o ddigwyddiadau cymunedol i ategu'r sesiwn addysg.

Camau nesaf

Bydd y gwisgoedd newydd yn cael eu hychwanegu at ein casgliad presennol o wisgoedd replica. Byddant yn rhan



hollbwysig o wasanaeth Addysg a Chymunedol yr amgueddfa a byddant yn cael eu defnyddio ym mhob digwyddiad hollbwysig perthnasol.

Hefyd, mae gennym gyfle yn awr i ddefnyddio'r gwisgoedd mewn cyfres o ddigwyddiadau drwy gydol gwyliau'r haf 2023 ar ein chwaer-safle, sef Bwthyn Gweithwyr Haearn Joseff Parry. Bydd modd i'r ymwelwyr gael mynediad at y gwisgoedd er mwyn iddynt allu cyfrannu at ddehongli'r gwisgoedd a manteisio ar gyfleoedd cofiadwy i dynnu lluniau.

Rhagor o wybodaeth

Charlotte Barry:

Swyddog Addysg a Dehongli –
charlotte.barry@
wellbeingmerthyr.co.uk

Christopher Parry:

Swyddog Cymunedol yr
Amgueddfa – Christopher.parry@
wellbeingmerthyr.co.uk

Prentisiaid Addysg Dyffryn Maes Glas

Crynodeb

Cafodd Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas arian gan GEM a Llywodraeth Cymru i greu llwybr hunandywysedig i ysgolion er mwyn cysylltu â'r *Cwricwlwm newydd i Gymru*. Cyflogwyd addysgwyr amgueddfeydd llawrydd i weithio ar y cyd ag ysgol leol gan ddefnyddio casgliadau'r amgueddfa a hanesion unigryw Dyffryn Maes Glas fel ysbrydoliaeth.

Cefndir

Amgueddfa awyr agored yw Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas, a chaiff ei rhedeg gan Ymddiriedolaeth a chan Gyngor Sir y Fflint. Ceir nifer cyfyngedig o weithdai ffurfiol i ysgolion dan arweiniad staff; ni cheir unrhyw swydd benodol yn ymwneud ag addysg.

Yr her

Gallu cyfyngedig sydd gan y staff i ddatblygu a chyflwyno gweithgareddau addysgol yn yr amgueddfa, ac ar hyn o bryd nid os unrhyw adnoddau hunandywysedig ar gael. Nid yw'r amgueddfa wedi addasu unrhyw ddeunyddiau eto i gyd-fynd â'r *Cwricwlwm newydd i Gymru*.

Dulliau gweithredu

Cyflogwyd addysgwyr amgueddfeydd llawrydd â gwybodaeth am y *Cwricwlwm newydd i ddatblygu a chyflwyno'r prosiect*. Fel rhan o'r prosiect, byddai disgyblion yn gallu archwilio'r casgliadau yng nghasys yr amgueddfa, yn cynnwys pethau a oedd yn gysylltiedig â hanes yr ardal a hanes caethwasiaeth.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Cydweithio â disgyblion ac athrawon – dull newydd o ddatblygu gweithgareddau.
- Roeddem eisiau i'r disgyblion dynnu sylw at agweddau ar hanes yr ardal a themâu a oedd o ddiddordeb iddynt.

Yr allbynnau a fwriadwyd

- Creu llwybr hunandywysedig y gellid ei ddefnyddio gan grwpiau ysgol eraill a fyddai'n ymweld yn y dyfodol.

Rhwystrau a phroblemau

- Nid oedd y disgyblion yn gwybod cymaint ag y tybiwyd am Barc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. O'r herwydd, bu'n anodd cyflwyno pethau o fewn un diwrnod.
- Mae'r amgueddfa ar wasgar dros ardal eang ac mae'n ymdrin â nifer o themâu. Bu'n anodd ennyn brwdfrydedd y disgyblion yn y casgliad ei hun, oherwydd roedd yn well ganddynt wisgo amdanynt mewn dillad hanesyddol a defnyddio'r offer rhyngweithiol.
- Daeth y disgyblion draw yn y gaeaf, felly roedd yr adeiladau'n eithaf tywyll, yn enwedig yn y tai hanesyddol. Roedd llawer o anwedd ar y casys arddangos, ac o'r herwydd roedd hi'n anodd gweld beth oedd y tu mewn iddynt.

Y canlyniadau gwirioneddol

Yn sgil y prosiect, bu modd inni feithrin perthynas ag ysgol newydd.





Rhoddodd gyfle inni brofi ffordd newydd o weithio, gan roi mwy o gyfrifoldeb i'r disgyblion.

Fe wnaeth y disgyblion ymgysylltu â'r casgliadau ac archwilio'r pethau a oedd yn mynd â'u bryd, gan ddatblygu ymdeimlad o gynefin ac ymwybyddiaeth o'u hanes lleol.

"Mae gan y plant lais ynglŷn â'r hyn y dymunant ei ddysgu, felly gallai ymweliad fel hwn danio diddordeb ac awgrymiadau ar gyfer pynciau y gellid eu trafod yn yr ystafell ddosbarth yn y dyfodol" – adborth gan athro.

Roedd y disgyblion yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth dros eu dysgu eu hunain ac fe wnaethant fynegi diddordeb mewn profi eu syniadau gyda gweddill y dosbarth.

Yr allbynnau gwirioneddol

Trwy gyfrwng y gwaith datblygu cychwynnol a thrwy siarad â'r athro arweiniol, daeth yn amlwg mai'r broses ei hun oedd y rhan bwysicaf yn hytrach na llwybr go iawn i ysgolion.

"Fe wnaeth yr holl ddisgyblion fwynhau edrych o amgylch yr amgueddfa yn annibynnol. Hefyd, cafodd disgyblion eraill flas ar greu

a rhannu syniadau ar gyfer gwelliannau" – adborth gan athro.

Roedd a wnelo'r broses â rhoi cyfle i'r disgyblion ddysgu am hanes Dyffryn Maes Glas, archwilio'r amgueddfa, dewis eu hoff themâu a'u hoff wrthrychau, creu syniadau gogyfer gweithgareddau ar gyfer disgyblion eraill a thrafod pa syniadau oedd y rhai gorau. Y canlyniad yw templed ar gyfer ysgolion. Mae'r templed hwn yn cynnwys briff a bennir gan yr amgueddfa yn gofyn am help y disgyblion. Bydd y disgyblion yn cael dod yn swyddogion addysg treftadaeth prentis er mwyn gwneud hyn. Bydd y templed yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn a geir yn yr amgueddfa a'r hyn a geir ym mhob ystafell, a bydd yn awgrymu cwestiynau a thasgau y gall athrawon eu defnyddio pan fyddant yn yr amgueddfa.

Gwersi a ddysgwyd

- Bydd yr amgueddfa yn ystyried pa adeg o'r flwyddyn yw hi a pha mor hygyrch fydd y safle a'r casgliadau wrth drefnu i ysgolion gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn.
- Yn y pen draw, y broses o gynnwys

Yn sgil y prosiect, bu modd inni feithrin perthynas ag ysgol newydd. Rhoddodd gyfle inni brofi ffordd newydd o weithio, gan roi mwy o gyfrifoldeb i'r disgyblion.

y disgyblion ar y cyd fu'r ffocws, yn hytrach na'r canlyniad ffisegol. Fe wnaeth hyn helpu'r staff i ddeall y Cwricwlwm newydd a'i nodau yn well.

- Arweiniodd at drafodaeth ynglŷn â pha mor gyfarwyddol y dylai'r gweithgareddau fod. Er mai profiad dysgu dan arweiniad disgyblion yw hwn, dylid sicrhau hefyd bod gwybodaeth ar gael i gynorthwyo'r disgyblion e.e. disgrifiadau manylach o'r pethau y gellir dod o hyd iddynt yn holl ystafelloedd yr amgueddfa.

Camau nesaf

Bydd templed i ysgolion a briff i ddisgyblion ar gyfer dod yn addysgwyr treftadaeth prentis ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas yn cael eu llunio a byddant ar gael i grwpiau ysgol er mwyn iddynt allu cynnal eu fersiwn eu hunain o'r gweithgaredd hwn.

Penderfynodd yr ysgol beilot mai llwybr 'hela'r gwrthrych' oedd y ffordd orau o archwilio Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas. Bydd y disgyblion a gweddill y dosbarth yn cael eu gwahodd i ddod draw i dreialu a gwerthuso'u gweithgaredd yn yr amgueddfa.

Rhagor o wybodaeth

Sarah Pevely:

sarah.pevely@aura.wales

Lorna Kernahan:

lorney45@hotmail.com

Y Celfyddydau Mynegiannol 2:

Adnodd Dysgu i Ysgolion – "Cysylltu â Chynefin"



Crynodeb

Cynigiodd y prosiect hwn, a ariennir gan GEM, gyfle i'r gwasanaeth amgueddfeydd ac Adran Addysg yr awdurdod lleol barhau i ddatblygu eu cysylltiad cynhyrchiol ac ymestyn cyfleoedd i weithio ar y cyd. Roedd y prosiect yn cynnwys grŵp o athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd, Cynghorydd Cymorth Ysgolion o Dîm Gwella Ysgolion Sir Gaerfyrddin, staff amgueddfa a dau artist lleol. Cynigiodd y prosiect gyfle i'r amgueddfa weithio'n uniongyrchol gydag athrawon a chynghorwyr addysg. Nod y prosiect oedd llunio adnodd ar gyfer ysgolion – adnodd a gâi ei lywio gan un gwrthrych yng nghasgliad yr amgueddfa. Y gwrthrych a ddewiswyd oedd un o eitemau Prosiect Cragen Beca a gaffaelwyd gan yr amgueddfa yn 2022.

Cefndir

Ffurfiwyd gweithgor i athrawon. Roedd y gweithgor hwn yn cynnwys dau ymarferydd cynradd, un ymarferydd uwchradd a chynghorydd o Dîm Gwella Ysgolion Sir Gaerfyrddin. Bu modd i'r grŵp gyfarfod â Kathryn Campbell-Dodds, artist Cragen Beca, ar ddechrau'r prosiect. Bu'r cysylltiad hwn yn amhrisiadwy, gan esgor ar doreth o wybodaeth ychwanegol y bu modd i'r athrawon ei defnyddio i lywio datblygiad yr adnodd dysgu.

Yr her

Rhaglen gelf ryngddisgyblaethol a gafodd ei chreu a'i churadu gan yr artist yn dilyn ei hymweld â'r amgueddfa a'i chysylltiad dilynol â'r gragen dro (Cragen Beca) a oedd yn rhan o'r arddangosfa –

dyna yw Prosiect Cragen Beca. Rhoddwyd y gragen dro i Wasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin yn y 1980au gan deulu a oedd yn byw yn Nhalog, sef pentref bach yn Sir Gaerfyrddin. Roedd aelodau'r teulu wedi cadw'r gwrthrych ymfflamychol hwn ynghudd yn eu cartref ers adeg y terfysg pan arferid ei ddefnyddio gan y cymeriad chwedlonol "Beca" a'i "merched" yn ystod Terfysg Merched Beca yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (1839-43) yn Sir Gaerfyrddin.

Yr hyn a arweiniodd at greu'r adnodd dysgu hwn oedd y cysyniad bod Beca yn galw ar ei "merched" i ymateb ac ysgogi newid. Mae'r adnodd yn ymestyn hanes Terfysg Beca i'r unfed ganrif ar hugain o safbwynt lleol a chenedlaethol tuag at faterion a digwyddiadau byd-eang.

Dulliau gweithredu

Yn dilyn y cyfarfod rhagarweiniol, datblygodd aelodau'r grŵp eu syniadau, gan weithio'n agos gyda Louise Bird, sef artist tecstilau ac un a gyfrannodd at Brosiect Cragen Beca. Cynhaliwyd dau weithdy ymarferol gyda'r artist yn yr amgueddfa. Bu modd i aelodau'r grŵp ddefnyddio'r amser hwn i archwilio gwisgoedd Cragen Beca yn fanylach a choladu'r prosesau gweol y byddent yn eu cynnwys yn yr adnodd dysgu. Hefyd, defnyddiwyd delweddau o'r sesiynau ymarferol fel cyfeiriadau gwledol yn yr adnodd dysgu. Roedd yr wybodaeth o ran sgiliau yn cynnwys enghreifftiau o brosesau lliwio,



pwytho Sashiko, appliqué a dylunio tecstilau. Hefyd, yn ystod y gweithdai bu'r grŵp yn ymchwilio i hanes baneri gweol, yn cynnwys pwrpas y baneri hyn o gyd-destun hanesyddol ac o safbwynt cyfoes.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Adnodd dysgu dwyieithog i ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i gyflwyno'r Celfyddydau Mynegiannol a hwyluso cysylltiadau gyda gwrthrychau yn yr amgueddfa a'r Cwricwlwm i Gymru.

Y canlyniadau gwirioneddol

Datblygwyd yr adnodd dysgu hwn ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol er mwyn cynorthwyo dysgwyr ar draws Camau Cynnydd tri a phedwar. Mae'n cynnig cyfle i greu cysylltiadau ar draws cyfnodau cynradd ac uwchradd a cheir potensial i'w ddatblygu yn y dyfodol fel prosiect pontio ar draws ysgolion. Mae'r adnodd yn cynnwys gwybodaeth seiliedig ar sgiliau yn ymwneud â phrosesau gweol ac mae'n cysylltu ag agweddau ar y celfyddydau gweledol, sef lliw a phatrwm.

Yr allbynnau gwirioneddol

Bydd yr adnodd dysgu hwn yn rhan o brosiect peilot yn ystod tymor y gwanwyn (2023) trwy'r tair ysgol sy'n cymryd rhan ynddo. Bydd y prosiect peilot hwn yn cynnig adborth gan ddygwyr a deilliannau terfynol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu trwy ysgolion Sir Gaerfyrddin a bydd yn rhan o raglen gymorth barhaus i ysgolion o fewn y Celfyddydau Mynegiannol. Bydd yr adnodd dysgu'n cael ei lansio mewn digwyddiad rhannu ac arddangosfa a gynhelir yn yr amgueddfa ym mis Mawrth 2023.

Gwersi a ddysgwyd

Mae'r adnodd dysgu a luniwyd gan y gweithgor yn cynnig cyfleoedd i athrawon ymgorffori Prosiect Cragen Beca yng nghynllun eu cwricwlwm, a chynhwysir enghreifftiau o gysylltiadau trawsbynciol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi anghenion a buddiannau pob dysgwr wrth galon cynllun y cwricwlwm. Rhagwelir y bydd yr adnodd hwn yn cynnig enghraifft i ysgolion o brofiad

dysgu a fydd yn helpu eu dysgwyr i fynegi eu hangerdd dros newid trwy ddefnyddio cyfrwng creadigol. Mae llywio trwy newid yn agwedd gyfarwydd bellach o dirlun ysgolion ac o'r herwydd mae hi'n hanfodol inni gynnig llwyfan creadigol i benderfynwyr y dyfodol, lle gallant fynegi a thrafod.

Camau nesaf

Mae Cyngor Sir Gâr wedi pennu ei strategaeth wledig. Yn y strategaeth hon, tynnir sylw at y ffaith fod llawer iawn o bobl ifanc yn gadael y sir yn gyffredinol, ac yn enwedig felly ardaloedd gwledig. Mae gan y gwasanaeth amgueddfeydd gyfle i fod yn rhan o ateb hirdymor er mwyn helpu pobl ifanc i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth a lle – rhywbeth a all ddylanwadu ar eu dewisiadau yn y dyfodol o ran astudio, gweithio a byw yn Sir Gaerfyrddin. Ein nod yw darparu gwasanaeth dysgu amgueddfaol a gaiff ei seilio ar y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnig profiadau perthnasol a diddorol, cofiadwy a phwerus, a hynny er budd llesiant hirdymor pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin, yn awr ac yn y dyfodol.



“ Mae'n helpu pobl ifanc i feithrin ymdeimlad cynnig cyfle i greu cysylltiadau ar cryf o hunaniaeth a lle.

Rhagor o wybodaeth

Louise Morgan

Cynghorydd Cymorth Addysg Cyswllt, Tîm Gwella Ysgolion Sir Gaerfyrddin HeLMorgan@
carmarthenshire.gov.uk

Gweithgor yr Athrawon:

Kathryn Richards

Kathryn.Richards@bromyrdin.org

Catrin Jones

CATRINM.JONES@ydderwen.
ysgolccc.cymru

Lowri Pinney

Catrin.Pinney@drefach.ysgolccc.
cymru

Artistiaid a gyfrannodd at y prosiect:

Kathryn Campbell-Dodd

kathryncampbelldodd
@hotmail.com

Louise Bird

birdlouise@yahoo.co.uk

Adnoddau Addysg Cofio Hedd Wyn



Crynodeb

Comisiynwyd yr addysgwr a'r awdur Haf Llewelyn i gasglu a chynhyrchu adnodd ymatebol i Gofio Hedd Wyn i fodloni anghenion y Cwricwlwm i Gymru ac sy'n addas hefyd er mwyn nodi canmlwyddiant cofeb Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd.

Cefndir

Mae'r Ysgwrn yn amgueddfa achrededig ar gyrion Trawsfynydd yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri. Prif gynulleidfaoedd yr Ysgwrn yw grwpiau addysg, grwpiau oedolion (twristiaeth ac addysg gydol oes) ac ymwelwyr cyffredinol.

Yr her

Gyda lansiad y Cwricwlwm i Gymru yn 2022, roeddem yn ymwybodol bod bwllch yn yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion ddysgu'r meysydd dysgu a phrofiad a bod cyfle gwych i'r Ysgwrn lenwi'r bwllch hwn ac ehangu'r gwaith presennol gydag ysgolion. Mae lle i'r Ysgwrn gynnig profiadau addysgol cyfoethog drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd yr Ysgwrn eisoes wedi comisiynu cyfres o adnoddau a themâu gwahanol ond cafwyd cyfle penodol yng ngaeaf 2022-23 i gomisiynu gwaith newydd ar sut i gofio Hedd Wyn a'r cwestiynau dyrys ynghylch rhyfel a heddwch.

Dulliau gweithredu

- Creu briff prosiect;
- Trafod y gwaith gyda Haf Llewelyn,

“ Mae'n hanfodol gweithio gyda gweithwyr llawrydd profiadol i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

” Gyda lansiad y Cwricwlwm i Gymru yn 2022, roeddem yn ymwybodol bod bwlbh yn yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion ddysgu'r meysydd dysgu a phrofiad a bod cyfle gwych i'r Ysgwrn lenwi'r bwlbh hwn ac ehangu'r gwaith presennol gydag ysgolion.

ymgynghorydd addysg llawrydd ac awdur yn arbenigo ar hanes Hedd Wyn;

- Cysylltu ag Ysgol Bro Hedd Wyn i dreialu'r adnoddau.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Darparu adnoddau o safon fel bod modd i ysgolion astudio'r pwnc trwy feysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru;
- Gwella'r berthynas gydag Ysgol Bro Hedd Wyn ac ysgolion lleol eraill trwy dreialu'r adnoddau;
- Gwella'r berthynas rhwng yr Ysgwrn ac ysgolion drwy amlygu sut y gellir defnyddio'r Ysgwrn, ei leoliad a

chasgliad yr amgueddfa i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Adnodd addysg newydd.

Rhwystrau a phroblemau

Mae amserlen dynn yn ei gwneud yn anodd cyflawni'r amcanion o fewn yr amser.

Y canlyniadau gwirioneddol

Fel uchod – prosiect syml wedi ei gyflawni i safon uchel.

Gwersi a ddysgwyd

- Mae angen rhaglennu ymlaen llaw lle bo modd;

- Mae'n bwysig bod y briff yn glir. Mae'n hanfodol gweithio gyda gweithwyr llawrydd profiadol i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Camau nesaf

Byddwn yn treialu'r adnoddau gydag Ysgol Bro Hedd Wyn a rhai ysgolion lleol eraill yn ystod tymor yr haf.

Rhagor o wybodaeth

Bydd y prosiect yn rhan o brosiect celfyddydau a threftadaeth cymunedol a fydd yn digwydd ym mhentref Trawsfynydd ym mis Medi 2023.



"Nid Chwarae Plant"

Crynodeb

Wrth ymateb i adborth ar ôl trafodaethau gyda'r ysgol, fe wnaethom ganolbwyntio ar deganau'r Oes Fictoria fel y testun craidd, a defnyddio hyn fel catalydd i gyflwyno trafodaethau a gweithgareddau dysgu arweiniol ar bynciau tlodi, cyfoeth, addysg, hamdden, iechyd a llafur plant yn yr 1800au.

Mae'r adnodd testun craidd yn cynnwys pecyn athrawon, pecyn disgyblion a set gynhwysfawr o adnoddau trin a thrafod gyda gweithgareddau wedi'u cynllunio o'u cwmpas. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymgorffori sgiliau trawsgwricwlaidd - Mathemateg, Llythrennedd, Daeryddiaeth, Hanes a'r Dyniaethau.

Trialwyd yr adnoddau gan Ysgol Capelulo. O ganlyniad i'r arbrawf, mae Amgueddfa Penmaenmawr wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu'r gyfres o "is-adnoddau" sy'n arwain o'r pwnc craidd, gan gynnwys merched yr Oes Fictoria a golchi, diwrnod ysgol yr Oes Fictoria, llafur plant yr Oes Fictoria, a gofal iechyd plant yr Oes Fictoria. Mae pob un o'r adnoddau hyn yn cyflwyno'r cysyniad mantell ymhellach i'r profiad dysgu ac yn cysylltu'r wybodaeth â'r ardal leol.

Cefndir

Ysgol gynradd ddwyieithog, gydaddysgol ym mhentref Dwygyfylchi yw Ysgol Capelulo, Penmaenmawr. Mae'n darparu addysg ar gyfer 126 o ddysgwyr llawn amser a 19 o ddysgwyr rhan-amser o dair oed i un flwydd ar ddeg.

Cyflwynir gwersi ar draws pum dosbarth oedran cymysg, dau gyfnod iau a dau gyfnod sylfaen: Derbyn/Blwyddyn 1; Blwyddyn 1/Blwyddyn 2; Blwyddyn 3/Blwyddyn 4; Blwyddyn 4/Blwyddyn 5; a Blwyddyn 6. Mae'r staff addysgu yn cynnwys tîm bychan, y Pennaeth, pump o athrawon llawn amser, pedwar cymhorthydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a dau gymhorthydd addysgu Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae Amgueddfa Penmaenmawr tua 1.2 milltir o'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn mynychu digwyddiadau dysgu awyr agored yr amgueddfa gyda'u teuluoedd neu'n ymweld â'r amgueddfa yn rheolaidd. Gellir ond ymweld â'r amgueddfa gyda chlundant o'r ysgol, oherwydd diffyg palmentydd a llwybrau cerdded diogel rhwng Dwygyfylchi ac Amgueddfa Penmaenmawr.

Yr her

Roedd Amgueddfa Penmaenmawr am fynd i'r afael â thair prif her drwy'r prosiect hwn:

- Pontio bwlch o ran deall anghenion athrawon a'r adnoddau sydd arnynt eu hangen, er mwyn galluogi'r amgueddfa i ddatblygu deunyddiau perthnasol sy'n cefnogi gweithrediad y cwricwlwm newydd a mantell y dulliau arbenigol;
- Goresgyn diffyg capasiti ac adnoddau blaenorol i ddangos yn ddiriaethol i'r ysgolion sut y gall yr amgueddfa gefnogi a chyfrannu at eu gwaith a'r cwricwlwm newydd;



- Addasu'r berthynas rhwng yr amgueddfa ac ysgolion lleol, i sicrhau bod yr amgueddfa'n dod yn ganolfan adnoddau 'y gellir troi ati' i gefnogi gwaith athrawon, a meithrin gwell dealltwriaeth o sut mae'r amgueddfa'n gysylltiedig ag ystod eang o brosiectau a allai fod o fudd i'r ysgol.

Dulliau gweithredu

Roedd Amgueddfa Penmaenmawr wedi ymateb i arolwg gan y ddwy ysgol gynradd leol yn hydref 2022. Roedd yr arolwg yn gofyn i bobl leol am syniadau am yr hyn y gallai'r ysgolion ei gynnwys yn y ffocws lleol yn y cwricwlwm newydd. O ganlyniad i'n hymatebion i'r arolwg hwnnw, ac yna cysylltu â'r ysgol yn ystod y cais i GEM Cymru, cynhaliwyd cyfarfod gyda dau o'r athrawon i archwilio sut y gallai'r amgueddfa eu cynorthwyo gyda'r modd y maent yn cyflwyno'r cwricwlwm arfaethedig.

Yn ystod y cyfarfod buom yn trafod y pynciau yr oedd yr athrawon wedi bwriadu eu cwmpasu yn ystod y flwyddyn ysgol, oeddrannau'r disgyblion a sut roedd yr athrawon am ddefnyddio technegau integreiddio'r cwricwlwm a mantell. Addasodd yr amgueddfa ei chysyniad prosiect gwreiddiol bryd hynny, gan ddeall bod

angen i'r adnoddau fod yn fwy hyblyg ar gyfer y gwahanol ystodau oedran a addysgir yn y dosbarthiadau oedran cymysg, a bod yr athrawon yn bwriadu defnyddio dulliau 'mantell rannol' yn hytrach na dulliau 'mantell gyfan', at isbynciau penodol.

Teimlai'r amgueddfa hefyd fod yn rhaid i ni gynhyrchu enghraifft o'r hyn y gellid ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, cytunwyd i gynhyrchu dau adnodd gwahanol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran - un ar yr Oes Haearn a oedd yn cynnwys mwy o ddulliau mantell ar gyfer disgyblion hŷn, ac un ar deganau'r Oes Fictoria a fyddai'n gatalydd i bynciau eraill ar gyfer plant iau.

Er mwyn cynhyrchu deunyddiau cwricwlwm enghreifftiol, roedd yr amgueddfa eisiau buddsoddi mewn gwrthrychau rhagorol a fyddai'n cefnogi'r pynciau. Roedd gennym amrywiaeth o deganau'r Oes Fictoria a chryfhawyd yr adnodd hwn gyda buddsoddiad pellach, ond ar gyfer yr Oes Haearn fe wnaethom droi at un o'n partneriaid CDL, Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, am gymorth. Fe brynnon nhw adnoddau gwerth tua £1000 i'r amgueddfa i roi deunyddiau trin at ei gilydd a fyddai'n gweithio ar gyfer addysgu ar ffurf gwybodaeth a dulliau mantell.

Datblygodd yr amgueddfa weithdrefnau newydd o amgylch adnoddau'r cwricwlwm, gan gynnwys cytundebau benthyca a rhestrau eiddo, a chreodd rôl wirfoddolwr i reoli'r system o oruchwylio'r adnoddau a oedd yn dod i mewn ac yn mynd allan, eu glanhau a'u rhoi mewn cwarantîn rhwng pob

benthyciad. Rhoddwyd y system hon ar waith ym mis Ionawr 2023.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Datblygu gwell dealltwriaeth o ba elfennau o'r cwricwlwm y mae athrawon yn canolbwyntio arnynt a sut maent yn bwriadu symud ymlaen â'r pwnc hwnnw.
- Datblygu gwell ymwybyddiaeth o'r hyn y mae ysgolion am ei gael gan ein gwasanaeth a sut gallwn ni eu cefnogi i gyflwyno pynciau sy'n berthnasol i'r cwricwlwm a'r ysgol.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Gweithio gyda:

- 1 ysgol
- 30 o blant / pobl ifanc 1 athro
- 1 gwirfoddolwr i gymryd rhan yn y prosiect

Rhwysterau a phroblemau

Y prif rwystr ar ddechrau'r prosiect oedd nad oedd yr ysgol yr oeddem yn bwriadu gweithio gyda hi eto mewn sefyllfa i gefnogi'r gwaith o brofi adnodd cwricwlwm newydd gyda'r amgueddfa. Fodd bynnag, roeddem yn gallu gwneud addasiad cyflym a gweithio gydag Ysgol Capelulo yn lle hynny.

Roedd yn rhaid i ni hefyd addasu ein cysyniad gwreiddiol o ddatblygu adnodd 'mantell gyfan', gan fynd â disgyblion i mewn i senario ffuglen trwy gydol y testun. Roedd yr athrawon wedi cynllunio i ymgymryd â dulliau rhan-fantell i'w darpariaeth a theimlai'r amgueddfa fod angen i ni weithio gyda'u methodoleg a gweithio tuag at ymagweddau mantell gyfan ar gyfer adnoddau yn y dyfodol gyda'r ysgol.

Efallai mai'r broblem fwyaf oedd ail-ganolbwyntio'r prosiect o'r swyddi yr oedd plant yn eu gwneud ym Mhenmaenmawr yn yr 1800au, i hynny fod yn is-bwnc o 'fachyn' a oedd yn fwy diriaethol i oedranau'r disgyblion - yn hytrach, canolbwyntio ar deganau o'r Oes Fictoria ac yna trafod amser hamdden a sut nad oedd gan rai plant amser hamdden oherwydd bod yn rhaid iddynt weithio i gefnogi eu teuluoedd.

Y canlyniadau gwirioneddol

- Bellach mae gan Amgueddfa Penmaenmawr well dealltwriaeth o sut mae'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn Ysgol Capelulo, yr hyn y mae'r athrawon yn bwriadu ei gwmpasu yn ystod y flwyddyn ysgol hon, a'r cymorth sydd ei angen arnynt i gyflwyno'r pynciau.
- Mae'r berthynas rhwng Amgueddfa Penmaenmawr ac Ysgol Capelulo wedi cryfhau'n sylweddol. Rydym eisoes wedi profi cynnydd mewn ymholiadau gan yr ysgol ac rydym yn eu cefnogi gyda mwy adnoddau a darpariaeth.

Yr allbynnau gwirioneddol

- 1 ysgol
- 48 o blant / pobl ifanc 2 athro
- 2 wirfoddolwr yn cymryd rhan yn y prosiect (1 trwy gasglu a thynnu lluniau o adnoddau, ac 1 gyda rôl wirfoddolwr newydd i gydlynu'r adnoddau a gynhyrchir)
- 2 becyn athrawon
- 2 becyn disgyblion
- 2 flwch trin

Gwersi a ddysgwyd

Gallai'r amgueddfa chwarae rhan mewn hyfforddi athrawon ym mantell y dull arbenigol, a chefnogi'r dulliau hynny yn yr ystafell ddosbarth, yn yr amgueddfa a thrwy ddysgu yn yr awyr agored. Mae angen i ni archwilio hyn yn arbennig mewn perthynas â hanes byw ac ymgorffori drama hanesyddol.

Er mwyn cyflwyno'r agweddau ar y cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y gymuned leol a'r amgylchedd, mae angen gwybodaeth fwy hygyrch er mwyn i athrawon allu ysgrifennu a datblygu'r deunyddiau y maent am eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae risg o wybodaeth anghywir neu o ddefnyddio ffynonellau anghywir, ac mae angen i'r amgueddfa a sefydliadau eraill nodi'r risgiau hyn a cheisio llenwi unrhyw fylchau cyn gynted â phosibl.

Camau nesaf

Mae Amgueddfa Penmaenmawr ar hyn o bryd yn datblygu cyfres gynhwysfawr o bynciau gydag Ysgol Capelulo o ganlyniad i'r prosiect. Rydym wedi sicrhau buddsoddiad ar gyfer trin deunyddiau o Gynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, ac mae pecynnau cwricwlwm yn cael eu hysgrifennu a'u llunio ar y pynciau a ganlyn:

Cyfnod Neolithig, Oes Efydd, Oes Haearn, Rhufeiniaid, Canoloesol, Pobl Oes Fictoria (6 phwnc)

Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â Suryiah Evans
info@penmaenmawrmuseum.co.uk

Defnyddio Casgliadau a Dderbynodwyd ar gyfer Dysgu

Crynodeb

Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n canolbwyntio ar daith ddysgu sy'n seiliedig ar brofiad, ac rydym wedi canfod mai'r ffordd orau o wneud hyn yw trin a chyffwrdd ein casgliadau a dderbynodwyd. Mae'n creu profiad cofiadwy sy'n ateb pedwar diben y Cwricwlwm, a hynny drwy sicrhau dysgwyr galluog, creadigol, gwybodus a hyderus.

Cefndir

Mewn casgliadau amgueddfeydd ceir straeon lleol a all gyffwrdd â chysylltiadau cenedlaethol neu ryngwladol ehangach. Golyga hyn, trwy ddefnyddio'r gwrthrychau, y gall amgueddfeydd ac ysgolion addasu'n hawdd i *Gamau Cynnydd* a gwahanol *Feysydd Dysgu* a *Phrofiad* a sicrhau ar yr un pryd bod Cynefin yn cael y sylw blaenaf.



Dylai amgueddfeydd gofio hefyd nad mewn sesiynau Dyniaethau'n unig y gellir defnyddio casgliadau cyffwrdd, gallant fod â chysylltiadau â Gwyddoniaeth a Thechnoleg, Mathemateg a Rhifedd a hyd yn oed lechyd a Lles. Mae'n hanfodol dangos hyn i ysgolion pan fyddant yn chwilio am gyfleoedd ymgysylltiad.

Yr her

Er mwyn i hyn weithio, mae angen i'r tîm cyfan gymryd rhan. Sylweddolwyd y gall agor ein casgliadau i blant fod yn frawychus ac ymddangosai'n groes i bopeth roeddem ni'n ei wybod am ofalu am ein casgliadau.

Dulliau gweithredu

Fodd bynnag, mae'n bosib! Yn gyntaf, mae'n bwysig sefydlu pa ran o'n casgliadau y gellir eu trin. Ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda aethom ati i ddatblygu Polisi Trin Gwrthrychau oedd yn golygu y byddem yn ystyried gadael i'r holl eitemau a dderbynodwyd gael eu trin/cyffwrdd gan y cyhoedd. Roedd y mesurau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r gwrthrychau yn dibynnu ar system goleuadau traffig wrth i ni asesu'r gwrthrych. Roedd gwyrdd yn golygu y gallai fynd oddi ar y safle a chael ei drin heb unrhyw gyfyngiadau, ac roedd coch yn golygu mai dim ond ar y safle y gellid ei ddefnyddio ac efallai y byddai angen ei roi mewn blwch amddiffynnol ac ati.

Pe byddai angen defnyddio atgynrychiadau, penderfynwyd y byddem yn bod yn agored ac yn

onest am hyn ac yn egluro pam, ac roedd hyn hefyd yn creu cyfle dysgu cysylltiedig â deall y gwaith o ofalu am gasgliadau.

Y canlyniadau a fwriadwyd

Roeddem yn gobeithio, trwy ddefnyddio ein casgliadau a bod yn agored am unrhyw atgynrychiadau roedd yn rhaid eu defnyddio, y byddai mwy o ysgolion yn awyddus i ymgysylltu â ni.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Ein nod hefyd oedd defnyddio'r polisi i ddatblygu ein cynllun blychau benthyca ar gyfer ysgolion gydag eitemau y gellid eu defnyddio oddi ar y safle.

Rhwystrau a phroblemau

Gan fod arnom ni eisiau i eitemau gael eu defnyddio oddi ar y safle a heb oruchwyliaeth staff ar brydiau, cafwyd hyd i lawer o eitemau nad oedd modd eu defnyddio, a oedd yn siomedig. Fodd bynnag, roedd digon o eitemau yn ein casgliadau y gallem eu defnyddio, megis eitemau cysylltiedig â'r Cyfnod Fictoraidd, Mwyngloddio, a'r Rhyfeloedd Byd. Roedd yn syndod faint o wahanol bynciau y gallem eu cynnwys oedd yn gysylltiedig â nifer o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Y canlyniadau gwirioneddol

Drwy ganiatáu i'n casgliadau fod yn hygyrch rydym yn creu arlwy addysg unigryw yn awtomatig gan fod ein holl gasgliadau yn gysylltiedig â'n cylch gorchwyl casglu ni ein hunain ac yn wahanol felly i gasgliadau



“Roeddem yn gobeithio, trwy ddefnyddio ein casgliadau a bod yn agored am unrhyw atgynrychiadau roedd yn rhaid eu defnyddio, y byddai mwy o ysgolion yn awyddus i ymgysylltu â ni.

amgueddfeydd eraill. Nid oes dwy amgueddfa yr un peth. Dyma sydd yn allweddol i'r Cwricwlwm newydd a Chynefin. Bydd angen i blant ddysgu am Gymru a'r hyn a ddigwyddodd ar garreg eu drws. Gall y straeon unigryw hyn ddod yn gyffyrddadwy oherwydd ein casgliadau. Gall hefyd helpu i greu cynaliadwyedd ar gyfer ein gwefan. Yn ystod Medi 2022 – Ionawr 2023 mae 13 o flychau benthycu wedi bod mewn ysgolion, ac mae eu hanner yn ysgolion sydd wedi ymgysylltu â ni am y tro cyntaf.

Yr allbynnau gwirioneddol

Crëwyd 10 blwch gwahanol ar amrywiaeth o bynciau. Aethom ati hefyd i greu taflenni gwaith addasadwy i gyd-fynd â'r blychau neu sesiynau tywys ar y safle.

Roeddwn yn teimlo mai'r cwestiynau hyn oedd y rhai gorau a gellir eu haddasu ar gyfer y rhan fwyaf o oeddrannau a phynciau: sut mae'r gwrthrych yn teimlo, a yw'n edrych fel rhywbeth sy'n gyfarwydd i chi, sut ydych chi'n meddwl bod y person oedd yn berchen ar y gwrthrych neu'n ei ddefnyddio yn teimlo? I enwi dim ond rhai.

Cyn dim roedd gennych chi gynnig ar gyfer ysgolion sy'n canolbwyntio'n helaeth ar Gynefin, yn ogystal â'r cyfle i fod yn drawsgwricwlaidd.

Gwersi a ddysgwyd

Drwy greu'r adnoddau hyn a llunio'r polisi gwelsom fod dechrau gyda blychau benthycu yn ffordd haws o reoli'r hyn sy'n digwydd i eitemau a'r hyn y gellir ei ddisgwyl.

Hefyd pe bai ysgol yn gofyn amdanynt, roeddent i gyd yn yr un lle yn barod i fynd. Os oes gennych chi dimau llai neu os nad oes unrhyw un yn canolbwyntio'n benodol ar ddysgu dyma'r lle gorau i ddechrau a gall greu adnodd digonol ar gyfer ysgolion a'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Camau nesaf

Wrth inni symud ymlaen gyda'r hyder a ddatblygwyd, rydym bellach yn dechrau cynnig gweithdai wedi'u teilwra ar y safle gan ddefnyddio eitemau o'n casgliadau. Rydym wedi dod i arfer â'r polisi a'r Cwricwlwm newydd i Gymru a gallwn gynnig y gweithdai hyn gyda staff addysg penodol. Golyga hyn ein bod yn llai tebygol o wrthod cymorth i ysgolion am nad oes modd i ni ymdrin â'u pwnc. Rwy'n credu y bydd angen bod yn greadigol iawn!

Rhagor o wybodaeth

Esta Lewis

esta.lewis@rctcbc.gov.uk

Creu Partneriaethau gydag Ysgolion ADY gan ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru

Crynodeb

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi peri i newid, nid i ysgolion y brif ffrwd yn unig, ond i Ysgolion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd. Er nad yw'n orfodol dilyn y cwricwlwm, mae Ysgol Hen Felin yn ei ddefnyddio gan ei fod yn cwmpasu'r profiad dysgu a sgiliau y mae'r ysgol yn ymfalchïo ynddo, sef profiad sy'n canolbwyntio ar y disgybl.

Cefndir

Ysbrydolwyd y prosiect a'r partneriaethau gan elfen Cynefin y cwricwlwm. Mae Parc Treftadaeth Cwm Rhondda wedi'i leoli ar safle hen bwl glo. Cynigir profiad tanddaearol a cheir casgliad ar fwyngloddio a'r hanes cymdeithasol.



Roedd plant yr ysgol wedi mynegi diddordeb yn y safle ac eisiau gweld beth oedd gennym ni i'w gynnig.

Yr her

Roedd yr ysgol eisiau prosiect seiliedig ar sgiliau ac, fel safle, roeddem ni'n awyddus i ddatblygu cynnig Celfyddydau Mynegiannol a Thechnolegau Digidol i ysgolion a chynyddu ein gweithgareddau oddi ar y safle.

Dulliau gweithredu

Felly, aethom ati i ddatblygu prosiect lle gallai disgyblion ymweld â'r safle ond byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn y dosbarth bob wythnos yn ystod tymor ysgol llawn. Byddai'r ymweliadau dosbarth yn cael eu rhannu'n sesiynau Treftadaeth, Celfyddydau a Chyfyngau Digidol.

Y canlyniadau a fwriadwyd

Ein nod oedd cynnwys y disgyblion i gyd er mwyn iddynt ddeall eu Cynefin a'u stori a mynegi hyn trwy adrodd straeon, celf ac animeiddio.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Roedd y nod hwn wedyn yn gymorth i ni greu llyfr stori hygyrch, y gellid ei werthu a chodi arian at elusen, arddangosfa ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda ac i ni fel safle gael rhaglen ymarferol i'w defnyddio gydag ysgolion eraill yn y dyfodol.

Rhwysterau a phroblemau

Yr un peth roedd yn rhaid i ni

ei ystyried wrth weithio gyda'r plant oedd amrywiol anghenion a galluoedd y plant. Felly, gwnaethom yn siŵr bod y gweithgaredd yn un roedd pawb yn gallu cymryd rhan ynddo, roedd opsiynau i ysgrifennu, yn ogystal â chardiau cyffwrdd gyda Velcro, a defnyddiwyd delweddau yn lle testun wedi'i deipio. Golygodd hyn lawer o waith dysgu a fu'n gymorth i mi ddatblygu ystod eang o sgiliau.

Y canlyniadau gwirioneddol

Drwy gymryd rhan yn y prosiect hygyrch, roedd y plant yn gallu ymgysylltu'n llwyr â'r Cwricwlwm i Gymru drwy weithio tuag at y Pedwar Diben. Daeth yr holl blant yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i fod yn rhan llawn o fywyd a gwaith trwy greu llyfr i'w werthu a chreu arddangosfa.

Daeth y plant yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus o Gymru a'r byd trwy edrych ar Paul Robeson a'i gysylltiadau â glowyr yng Nghymru.

Daeth y plant hefyd yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes trwy ddysgu mewn modd trawsgwricwlaidd. Roedd y sesiynau yn cysylltu pob un o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad i greu agwedd gyfannol at y Cwricwlwm i Gymru lle mae Cynefin yn greiddiol.

Roedd y prosiect yn helpu'r disgyblion i ddod yn unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Trwy greu ffyrdd newydd a chyffrous o ymgysylltu â threftadaeth a chyflwyno darpariaeth flaengar.

Roedd hon hefyd yn agwedd newydd ar weithgareddau addysgol Parc Treftadaeth Cwm Rhondda. Roedd cyflwyno'r cyfryngau digidol a phrynu llechi a meddalwedd yn ein galluogi i wneud yn fawr o'n cysylltiadau trawsgwricwlaidd y gallir eu cynnig i ysgolion eraill.

Yr allbynnau gwirioneddol

Hefyd, ar ôl cwblhau'r prosiect bydd llyfr stori hygyrch yn cael ei gyhoeddi yn ogystal â fersiwn digidol. Bydd arddangosfa hefyd yn cael ei chynnal ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda yn Haf 2023, wedi ei chreu gan y plant.

Gwersi a ddysgwyd

Yn ystod y prosiect cawsom gyfle i ddysgu nifer o wersi. Y wers gyntaf oedd amser a hyblygrwydd. Roedd yn rhaid i ni fod yn hyblyg wrth fynd yn ein blaenau gan sicrhau bod digon o amser wedi ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau. Byddem yn ymgolli mewn rhai agweddau ac yna byddai rhai gweithgareddau'n cael eu haddasu i gynnwys elfennau roedd y plant yn eu mwynhau neu eu gadael allan. Nid oedd hyn yn amharu ar y prosiect o gwbl ac roedd yn golygu y gallai'r plant lywio i ba gyfeiriad bynnag roeddent eisiau mynd iddo a'u gwneud yn ddysgwyr llawer mwy annibynnol.

Fe wnaethom ni ddysgu llawer hefyd am sut i gynnwys nodweddion digidol



yn ein gweithdai. Gyda chymorth Coleg y Cymoedd, llwyddodd yr ysgol a minnau i ddysgu am animeiddio a'i wneud ein hunain. Roedd hyn yn rhoi profiad trawsgwricwlaidd i'r plant ac yn fodd i ni fel safle allu cynnig mwy i ysgolion yn y dyfodol.

Camau nesaf

Oherwydd llwyddiant y prosiect, yn y dyfodol hoffem ddatblygu ein perthynas ag Ysgol Hen Felin ymhellach a chynllunio rhyw fath o ymgysylltiad blynyddol.

Rydym hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r sgiliau a ddysgwyd i gynnig sesiynau animeiddio i bob ysgol sy'n gysylltiedig â'n casgliadau neu'r cyfle i greu arddangosfa ar y cyd.

Rhagor o wybodaeth

Ni fyddai'r prosiect hwn wedi digwydd heb haelioni GEM a'u Meicro-grantiau yng Nghymru. Os hoffech chi ragor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch ag esta. lewis@rctcbc.gov.uk

Morio!

Crynodeb

Cydweithio gyda sefydliadau addysg lleol i greu a threalu adnoddau electroneg i gyd-fynd â'r Cwricwlwm I Gymru newydd. Mae'r Cwricwlwm hwn, gyda'i ffocws ar y thema Cynefin, yn gyfle arbennig i athrawon ysgolion lleol a staff yr Amgueddfa gydweithio yn benodol gydag arteffactau ac arddangosfeydd sydd yn Amgueddfa Forwrol Llŷn

Cefndir

Yn y gorffennol, rhan o 'wibdaith haf' bu'r Amgueddfa I lawer o ysgolion, gyda dim ond ychydig o waith ar y gwrthrychau yn cael eu gwneud. Mae ychydig o becynnau addysg ar gael yn yr Amgueddfa, ar ffurf ffolderi/papur yn unig. Mae galw gan ysgolion i gydweithio, bydd pecyn newydd 'Morio' yn gyfle i ddefnyddio TG.

” Rhowch ddigon o amser i greu'r pecyn, a sicrhau adborth gan blant ac athrawon.

Yr her

- Diffinio anghenion ysgolion lleol yng ngoleuni'r Cwricwlwm I Gymru a chydweithio i ddarganfod meysydd perthnasol i brofiadau cynefin y plant, a'u cyflwyno trwy weithgareddau difyr ymestynnol i'w gwneud yn yr Amgueddfa a/neu yn yr ysgol.
- Denu ysgolion i ddefnyddio'r adnoddau a dod yn gyfarwydd gyda'r Amgueddfa – I greu perthynas

Dulliau gweithredu

- Athrawon yn ymweld â'r Amgueddfa.
- Penderfynu ar 'themâu' posib.
- Athrawon yn trafod themâu gyda'u disgyblion.
- Athrawon a swyddog treftadaeth yn creu pecyn ar y thema.
- Ymweliadau dosbarth (oedrannau gwahanol, gallu gwahanol) i weld arteffactau, ffilmiau, arbrofi a gwneud gwaith yna.
- Adnoddau ar gael yn yr Ysgolion I athrawon eu defnyddio ac addasu'r adnoddau i'w dibenion.
- Asesu effeithiolrwydd yr adnoddau a datblygu ymhellach.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Perthynas rhyngweithiol adeiladol rhwng ysgolion a'r amgueddfa.
- Plant yn mwynhau dysgu am eu cynefin gyda'r ysgol.
- Plant a'u teuluoedd yn ymweld â'r Amgueddfa.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Pecyn o adnoddau electroneg i blant 6-11oed ar thema ' Morio'.

Rhwysterau a phroblemau

Amser i baratoi yn drwyadl oedd y broblem bennaf. Roedd yr ysgolion eisiau dod cyn bod yr adnoddau'n barod!

Mae lle yn eithaf cyfyng yn ein hamgueddfa ni ar gyfer dosbarthiadau mawrion a gwaith grŵp. Roedd logisteg y gweithgareddau grŵp yn peri ychydig o drafferthion. Yn yr Haf byddai modd trefnu i hanner wneud gwaith y tu allan, ond yn nhymor yr Hydref nid oedd hyn yn bosib.

Problem arall oedd amser yn yr Amgueddfa oherwydd trefniadau eraill yn yr ysgolion.





Mae angen clustnodi beth sy'n bosib yn ystod ymweliad a beth i'w gadw i gyflawni yn y dosbarth cyn yr ymweliad.

Y canlyniadau gwirioneddol

- Criw o gyn-athrawon lleol yn fodlon rhoi cyngor a bwydo syniadau i weithgareddau plant yr Amgueddfa.
- Cyswllt gydag athrawon sydd yn fodlon rhoi o'u hamser ac arbenigedd i helpu 'r Amgueddfa greu adnoddau diddorol a phwrpasol i anghenion ysgolion.
- Ymrwymiad newydd ar ran Pwyllgor yr Amgueddfa I ddatblygu gwasanaeth addysg.

Yr allbynnau gwirioneddol

- Pecyn o adnoddau electroneg ar gyfer CA2 wedi 'u mapio i'r Cwricwlwm newydd.
- Perthynas gweithiol da gydag ysgolion lleol.

Gwersi a ddysgwyd

- Rhoch ddiagon o amser i greu'r pecyn, a sicrhau adborth gan blant ac athrawon.
- Adnoddau ar Word nid PDF er mwyn i athrawon eu haddasu i anghenion dysgu unigol.
- Osgoi grwpiau mawrion yn y gaeaf!

Camau nesaf

- Bydd yr adnoddau ar gael ar ein gwefan yn y dyfodol agos.
- Rydym wedi penderfynu cynhyrchu pecynnau o adnoddau ar ein harddangosfeydd dros dro/tymhorol, mewn ymgais i ehangu gornelion / annog prosiectau gan ysgolion.
- Rydym yn gobeithio cyd-gweithio ar becyn i 'r Cyfnod Sylfaen, 'Fuo chi 'rïoed yn morio?'

Rhagor o wybodaeth

Yr Ysgolion a fu'n rhan o'r gwaith ymgynghorol a threialu adnoddau yw Ysgol Gynradd Nefyn ac Ysgol Gynradd Rhosgadfan.

Arweinydd y prosiect oedd Jina Gwyrfaï, cyn athrawes sy'n swyddog treftadaeth (rhan amser) yn yr Amgueddfa gyda chymorth gan Mr Geraint Jones, athro wedi ymddeol, a Mrs Janet Hughes, Prifathrawes wedi ymddeol. Mrs Eurwen Hulmston, swyddog addysg ymgynghorol sydd wedi ymgymryd â'r gwaith o baratoi pecyn arbrofol i gyd-fynd gydag Arddangosfa dros dro Gwanwyn 2023, 'Ar for Tymhestlog teithio rwyf' (yn ymwneud â pheryglon y môr).

Cwricwlwm i Gymru

Safbwynt ITE (Addysg Gychwynnol i Athrawon)

Crynodeb

Gosodwyd her i fyfyrwyr ITE (Addysg Gychwynnol i Athrawon) Celf, Cerddoriaeth a Drama TAR Uwchradd a TAR Cynradd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, sef cydweithio a chreu prosiect pontio ar gyfer blwyddyn 6/7. Y canolbwynt oedd archwilio Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Celfyddydau Mynegiannol a sut y gallai amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth neu sefydliadau celfyddydol neu ddiwylliannol eraill wella'r cyfle ar gyfer cynnig profiadau dysgu ystyrlon a dilys i ddisgyblion.

Cefndir

Caiff y diwygio addysgol uchelgeisiol a'r dasg o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru eu hategu gan hyblygrwydd addysgegol a grym athrawon i lunio'u cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar bedwar diben craidd yn ymwneud ag addysg. Ei nod yw hyrwyddo dysgu cyfannol sy'n integreiddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, ac mae'n ymdrechu i ddathlu'r cysylltiadau ystyrlon ar draws meysydd pwnc fel y gellir

gosod profiadau dysgu dilys yn eu cyd-destun, ynghyd ag atgyfnerthu a chyfoethogi'r profiadau dysgu hynny. Gan symud oddi wrth gyfnodau allweddol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn pennu cynnydd fel continwwm; mae hyn yn creu angen cynyddol i gyfathrebu a chydweithio ar draws cyfnodau.

Yr her

Trwy gyfrwng model *Ymchwilio ac Ymholi*, sy'n rhoi cyfle i athrawon-fyfyrwyr archwilio damcaniaeth a'i heffaith ar ymarfer yn ein Partneriaeth ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon (ITE) ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae ein myfyrwyr ITE yn meithrin eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hathroniaethau er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â chynllunio'r cwricwlwm mewn modd arloesol. Dros dri diwrnod, gweithiodd ein Myfyrwyr TAR Cynradd ac Uwchradd ITE gyda'i gilydd i feithrin sgiliau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddulliau tymor canolig o gynllunio'r cwricwlwm yn unol ag anghenion y Cwricwlwm i Gymru, ond hefyd

i gyfoethogi eu gwybodaeth am y cyfnod oedran amgen mewn perthynas â'r cwricwlwm, pynciau ac addysgeg.

Dulliau gweithredu

Fel arweinydd y cwrs TAR Uwchradd Celf a Dylunio, cafodd fy myfyrwyr Celf a Dylunio eu cymysgu â myfyrwyr eraill sy'n astudio pynciau eraill ym Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Celfyddydau Mynegiannol, ynghyd â nifer o fyfyrwyr TAR Cynradd. Rhoddwyd y myfyrwyr mewn grwpiau bach a gofynnwyd iddynt fynd ati ar y cyd i gynllunio prosiect pontio ar gyfer blwyddyn 6-7, gan ganolbwyntio ar y Celfyddydau Mynegiannol. Wrth baratoi, aethant ati ar y cyd i archwilio Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn y MDPH, ac yna fe wnaethant ddadansoddi egwyddorion cynnydd a chamau cynnydd fel y'u nodir yn y Cwricwlwm i Gymru.

Y canlyniadau a fwriadwyd

- Rhannu dealltwriaeth o'r "hyn sy'n bwysig" ym mhob Maes Dysg a Phrofiad (MDPh);
- Creu dealltwriaeth gyffredin o'r cwricwlwm rhwng ysgolion a chyfnodau – codi'r safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwch cyrhaeddiad.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Prosiect yn ymwneud â'r Celfyddydau Mynegiannol a fyddai'n esmwytho'r pontio i ddysgwyr blwyddyn 6 sy'n symud i flwyddyn 7. Gofynnwyd



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

i'r myfyrwyr archwilio sut y gallent gysylltu a chydweithio mewn modd ystyrlon gydag amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a sefydliadau celfyddydol neu ddiwylliannol eraill ar gyfer y prosiect damcaniaethol hwn.

Rhwystrau a phroblemau

Roedd hi'n hanfodol i'n myfyrwyr ddeall y cysyniad sydd ynghlwm wrth gysylltiadau ystyrlon a phrofiadau dysgu dilys.

Defnyddiwyd y dyfyniad "Cross curricular approaches are about synthesising ideas, but this should not be done in a way that destroys the cherished ideas and ways of thinking that every subject contains" (Fautley & Savage, 2011) i fframio trafodaethau'r myfyrwyr, gan eu galluogi i archwilio'u safbwyntiau eu hunain ac i rannu eu "hoff" syniadau pynciol ac addysgegol eu hunain.

Y canlyniadau gwirioneddol

Yn y sesiynau cafwyd cryn drafod wrth i'r myfyrwyr ddadansoddi geiriau ac ymadroddion allweddol a gynhwysir yn nogfennau'r Cwricwlwm i Gymru; er enghraifft, archwilio'n fanwl beth allai "profiad dysgu dilys" ei olygu. Yr hyn y mae profiad yn ei olygu. Cafwyd trafodaethau da'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, sut y gallai partneriaethau rhwng ysgolion a sefydliadau diwylliannol hwyluso'r dasg o ddatblygu gwersi, prosiectau a phrofiadau i ddysgwyr ar y cyd, a sut y gallai hyn yn ei dro hyrwyddo tegwch, gan sicrhau y rhoddir cyfle i bob un o'n dysgwyr gael profiad o sefydliadau diwylliannol.

Yr allbynnau gwirioneddol

Rhoddodd y prosiect traws-gyfnod amser i'n myfyrwyr ITE siarad a rhannu profiadau. Aeth rhai grwpiau ati i gynllunio tripiâu damcaniaethol, gan roi ystyriaeth ofalus i'r modd y byddai ymweliadau o'r fath yn cyfarwyddo'r dysgu ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth. Aeth eraill ati i ystyried sut y gellid defnyddio arteffactau a gâi eu dangos yn yr ystafell ddosbarth – trwy ddefnyddio adnoddau fel "Gallery in a Box" sydd ar gael trwy gyfrwng Llantarnam Grange – i danio trafodaethau ac ymatebion personol i'r thema 'perthyn'. Aeth rhai

myfyrwyr ati i integreiddio adnoddau amgueddfeydd a theithiau rhithwir yng nghynlluniau eu prosiect.

Gwersi a ddysgwyd

- Mae amser i siarad yn hanfodol i waith cynllunio ystyrlon. Rhannu profiadau, dadansoddi cysyniadau allweddol, trafod ac ymchwilio ar y cyd – fe wnaeth hyn oll gyfoethogi'r trafodaethau, gan arwain at well dealltwriaeth o gynllunio effeithiol ar gyfer profiadau dysgu dilys i'n myfyrwyr.
- Mae myfyrdodau ein myfyrwyr yn dangos awydd i integreiddio cyfleoedd i'w dysgwyr gael profiad o amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol eraill. Hefyd, dywedodd y myfyrwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus o ran sut y gellir archwilio hyn, er gwaethaf y rhwystrau y gall ysgolion (neu ddysgwyr) eu hwynebu.
- Er mwyn symud pethau yn eu blaen, rhaid cael ymarfer arloesol, elfen o gymryd risg, archwilio ac ymchwilio, ac yna myfyrio. Eisoës, mae cynifer o bethau gwyh yn digwydd ledled Cymru, prosiectau cyffrous, lluo o rwydweithiau cefnogol a datblygiad proffesiynol gwyh. Mae gan y naill gymaint i'w ddysgu gan y llall.

Camau nesaf

Ar gyfer prosiectau o'r fath yn y dyfodol, gwyh o beth fyddai meithrin cysylltiadau gyda chynrychiolwyr o amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol eraill. Byddai eu gwybodaeth a'u profiad yn amhrisiadwy yn ystod trafodaethau a gweithgareddau o'r fath.

Wrth inni lywio trwy'r cwricwlwm newydd, rhaid i bob un ohonom gymryd risgiau cytbwys – bydd rhai pethau'n gweithio, bydd pethau eraill yn methu, ond byddwn yn dysgu. Mae cariad at ddysgu yn hollbwysig i addysg, ac yn bwysicach fyth rhaid inni ystyried sut y gallwn gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i'n gilydd ar draws sectorau.

Mae gan y Cwricwlwm i Gymru y potensial i gynnig cyfleoedd nid yn unig o ran meithrin cysylltiadau

Roedd hi'n hanfodol i'n myfyrwyr ddeall y cysyniad sydd ynghlwm wrth gysylltiadau ystyrlon a phrofiadau dysgu dilys.

dyfnach rhwng ymarferwyr o wahanol gyfnodau oedran, ond hefyd o ran datblygu dulliau cydweithio agosach gydag amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol eraill. Trwy gryfhau cyfathrebu a datblygu rhwydweithiau cefnogol a ategir gan gynllunio ac ymchwilio effeithiol, credaf y gallwn yrru addysg yn ei blaen a rhoi Cymru wrth galon a chraidd diwygio addysgol drwy'r byd.

Rhagor o wybodaeth

Eve Oliver

Uwch-ddarlithydd Addysg
Gychwynnol i Athrawon a
Dysgu Proffesiynol:
Eeoliver@cardiffmet.ac.uk

I gael gwybodaeth am y cwrs
TAR a Phrifysgol Metropolitan
Caerdydd, ewch i:

Savage, J.(2011) *Cross Curricular Approaches to Teaching and Learning in Secondary Education*, London: Routledge

Welsh Government (2020).
Curriculum for Wales guidance.
[Online]. Available from: curriculum-for-wales-guidance.pdf (gov.wales)

"Cynefin"

Prosiect Llyfr Ysgrifennu Creadigol ar gyfer Amgueddfa Aberdaugleddau

Crynodeb

Mae'r prosiect llyfr ysgrifennu creadigol "cynefin" ysgolion Amgueddfa Aberdaugleddau wedi'i ariannu'n rhannol gan yr awdur Mara Purl o UDA (marapurl@aol.com) GEM Cymru ac Amgueddfa Aberdaugleddau. Seiliwyd y prosiect, a luniwyd gan Sue Davies, ar ei ymgynghoriad ag ysgolion cyn hyn, a nododd "cynefin" fel elfen allweddol o'r cwricwlwm newydd i Gymru y gallai'r amgueddfa ei gefnogi. Bu treialu gweithdai llythrennedd o safon wedi'u hysbrydoli gan gasgliadau'r amgueddfa a hanes Aberdaugleddau yn boblogaidd gyda'r pedair ysgol a gymerodd ran. Bu'r disgyblion yn gweithio gyda'r awdur lleol dawnus Nicola Davies a chyn-gynghorydd llythrennedd Cyngor Sir Penfro sydd bellach yn ymgynghorydd Eva John.

Cefndir

Roedd yr ystod oedran yn cynnwys Blynyddoedd 4-12 ar draws yr ystod gallu. Mae'r agwedd a ariennir gan GEM Cymru yn cynnwys cyhoeddi llyfrau disgyblion (fersiwn y DU) wedi'i ysbrydoli gan stori eu hamgueddfa a'u tref dros amser (bydd fersiwn UDA yn cael ei chyhoeddi gan Purl a ofynnodd yn benodol am y dull cronolegol). Y dyhead yw y bydd y llyfr yn cynyddu ymdeimlad personol disgyblion o "cynefin" trwy gael eu copi print personol. Mae'r prosiect yn dangos pŵer dysgu amgueddfa i bawb a'r rôl y dylai pob amgueddfa fod yn ei chwarae fel cyd-ddiogelwyr eu cymuned

"cynefin" wrth godi dyhead a chymhelliant dysgu. Mae'n dangos cyfle "unigryw" i Lywodraeth Cymru wrth sicrhau bod yr adnoddau addysgol cyfoethog sydd gan amgueddfeydd yn cael eu defnyddio ac yn ganolog i gynllun datblygu pob ysgol i wneud y gorau o botensial pob plentyn o fewn fframwaith strategol y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yr her

Canfu ymgynghoriad blaenorol ag ysgolion lleol fod "cynefin" yn allweddol i Gwricwlwm newydd y gallai'r amgueddfa ei gefnogi. Nodi'r meysydd Cwricwlwm sydd angen cymorth fwyaf; sesiynau ansawdd peilot; lle bo modd, gwerthuso ymatebion disgyblion ac athrawon; dal synnwyr personol o 'cynefin' yn ddiriaethol i ddisgyblion trwy gynhyrchu llyfrau. Galluogi gwell partneriaeth gyda chlwstwr ysgolion a datblygu eiriolaeth gryfach gyda phawb ar gyfer dyfodol amgueddfeydd trwy gynhyrchu llyfrau.

Dulliau gweithredu

Fel rhan o brosiect gwydn ehangach Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, cwblhawyd gwaith ymchwil i sut y gallai'r amgueddfa hon a arweinir yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ddod yn ysgolion hirdymor cynaliadwy, ymgynghorwyd fel partner allweddol ac ymgynghorwyd ar ddatblygu adnoddau ar gyfer cefnogi'r cwricwlwm newydd drwy banel

o athrawon; nodwyd "cynefin" fel elfen allweddol ar gyfer cefnogaeth; bu sesiynau llythrennedd gydag ysgolion yn yr amgueddfa yn boblogaidd ac mae gwerthusiad yn cael ei ennyn gan ddisgyblion ac athrawon; mae'r llyfr yn cael ei argraffu yn y DU a hefyd yn cael ei gynhyrchu yn yr Unol Daleithiau a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eiriolaeth mewn digwyddiad tyfu busnes yn 2023.

Rhwysterau a phroblemau

- Canfu bod gweithdai hanner diwrnod yn rhy fyr ar gyfer sesiynau llythrennedd.
- Mae cyllidwr yn mynnu peidio â chadw at ddaliadau addysg amgueddfeydd h.y mae'r ysgogiad ar gyfer ysbrydoliaeth yn dechrau gyda gwrthrychau amgueddfa ond nid yw cyllidwr sydd eisiau rhychwant eang o hanes yn cael ei gynnwys bob amser yng ngrwthrychau/dehongliad yr amgueddfa.
- Prinder lle a phrinder cyfleusterau ar gyfer dosbarth cyfan o blant ym man cyfredol yr amgueddfa a dim lle addysg pwrpasol yn yr amgueddfa.
- Diffyg rhyngweithioldeb yn arddangosfeydd amgueddfa a dim dehongliad dwyieithog.

Y canlyniadau gwirioneddol

- Datblygu gwaith partneriaeth agosach gyda chlwstwr ysgolion lleol.



- Llyfr i gyfoethogi synnwyr personol disgyblion o 'gynefin' – *angen ei greu/gwerthuso*.
- Llyfr fel pecyn cymorth eiriolaeth ar gyfer amgueddfa i greu partneriaethau a gwaith cynllun busnes ar gyfer digwyddiad tyfu 2023 posibl i bartneriaid; noddwyr ac ati.

Yr allbynnau gwirioneddol

- Cynhyrchiad llwyddiannus o lyfr ysgrifennu creadigol gan ddisgyblion – fersiynau'r DU ac UDA.
- Treialu gweithdai llythrennedd yn llwyddiannus gyda gwerthusiad i lywio cynllunio gweithdai yn y dyfodol.

Gwersi a ddysgwyd

- Pennu o'r cychwyn cyntaf, nid yn unig yn y cais ond mewn nodau ac amcanion dilynol yn ysgrifenedig i'r holl gyllidwyr yn glir y canlyniadau a'r allbynnau a pheidio â hepgor – gall rhai cyllidwyr geisio eu newid yn ystod prosiect.

” Eglurwch i ysgolion mwy union nifer y disgyblion a ddisgwylir ym mhob sesiwn.



- Eglurwch i ysgolion mwy union nifer y disgyblion a ddisgwylir ym mhob sesiwn.
- Gall cyfathrebu â gwahanol ysgolion fod yn gymhleth felly byddwch yn gyfarwydd â'ch ysgolion a sut maent yn gweithredu os yw'n bosibl a gweithio i sicrhau cysylltiadau gwaith agosach â'r amgueddfa a'r ysgol.

Camau nesaf

- Cynhyrchu fersiynau'r DU ac UDA o'r llyfr.
- Dogfennu a gwerthuso sut mae ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd a'r amgueddfa yn ei dderbyn; y defnydd o'r llyfr mewn eiriolaeth

dros ddyfodol yr amgueddfa wrth galon y gymuned fel menter fusnes a sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'n gwaith ar y cyd gyda Gem Cymru i godi proffil amgueddfeydd yn addysgol yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

GEM Journal 42 Mark O'Neill *Understanding and Reducing Inequalities in Museum Visiting*. pages 20-23.

Mabwysiadu Cydfuddiannol

Cydweithio Creadigol

Crynodeb

Dros yr 8 mlynedd diwethaf, rydym ni yn Ysgol Tudno wedi gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau creadigol a threftadaeth i gyfoethogi'r addysg a ddarperir. Mae dau o'r achlysuron hynny wedi arwain at "fabwysiadu cydfuddiannol" lle mae'r sefydliadau'n cynnig eu harbenigedd i'r ysgol ond mae'r ysgol; yr athrawon, y disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol, yn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hwythau gyda'r sefydliad gan ei helpu i symud ymlaen i ddatblygu ei ymgysylltiad.

Cefndir

Ysgol gynradd yn Llandudno yw Ysgol Tudno. Mae'r rhanddeiliaid yn aml yn rhoi gwybod i ni sut ysgol ydym ni. Dywed rhai ein bod yn garedig a bod lles pob plentyn yn cael blaenoriaeth. Dywed rhai ein bod yn ysgol gynhwysol sy'n croesawu pawb ac yn gweithio gyda phob unigolyn fel eu bod yn datblygu i fyw bywydau boddhaus. Dywed eraill ein bod yn ysgol greadigol neu gryfder arall a grybyyllir yw ein hunaniaeth Gymreig; boed hynny o ran ein defnydd o'r iaith neu ein dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes Cymru.

Er ein bod ni wedi gweithio'n galed ar yr agweddau hyn, teimlwn mai ein prif gryfder yw ein bod yn dîm o unigolion gyda llawer o wahanol gryfderau a phrofiadau, a gellir rhannu'r rhain gyda'n disgyblion ond hefyd gyda'n gilydd a chyda'r gymuned ehangach.

Rydym bob amser yn chwilio am bobl gyda gwahanol gryfderau i ychwanegu at ein tîm, er mwyn rhoi'r cyfleoedd gorau i'n disgyblion.

Yr her

Ennill profiadau gwerthfawr, perthnasol gan sefydliadau a fydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm a bywydau'r disgyblion.

Dulliau gweithredu

Datblygyd dull "mabwysiadu cydfuddiannol" sy'n golygu ein bod yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau i ddatblygu eu hallbwn mewn ffordd ystyrlon a grymus.

Y canlyniadau a fwriadwyd

Creu perthynas waith rhwng ysgolion a sefydliadau.

Yr allbynnau a fwriadwyd

Set o brofiadau pwrpasol i ddisgyblion y gall y sefydliad eu haddasu'n rhwydd ar gyfer defnyddwyr eraill.


Rhwystrau a phroblemau

Yn y prosiectau hyn buom yn gweithio gyda Mostyn, oriel gelf gyfoes ac Ensemble Cymru, ensemble sy'n gweithio ledled Cymru. Buom yn gweithio gyda'n gilydd i ddod â'r sefydliadau hyn i mewn i'r ysgol ond hefyd i ddod â'r ysgol i mewn i'r sefydliadau. Cafwyd ymweliadau yn ogystal â gweld manau rheoli prosiect a gwaith y sefydliad gyda'r cyhoedd.

Un rhwystr oedd y bobl. Pan fo unigolion wedi gweithio mewn ffordd benodol am nifer o flynyddoedd mae rhoi cynnig ar rywbeth newydd, neu gymryd cyngor gan eraill yn gallu bod yn eithaf brawychus. Roedd ceisio cael pawb i dderbyn y prosiect yn dasg ddigalon a gymerodd beth amser i'w goresgyn.

Mae amser yn ffactor arall. Nid yw'r math hwn o brosiect yn rhywbeth sy'n digwydd dros nos, mae angen cynllunio gofalus a llawer o drafodaethau rhwng yr holl rhanddeiliaid.

Fel gydag unrhyw brosiect, mae arian a diffyg arian yn ffactor bob amser.



Siaradwch! Mae trafodaeth yn allweddol er mwyn sicrhau cydweithio llwyddiannus.

Y canlyniadau gwirioneddol

Ein prif nod oedd creu perthynas waith rhwng y sefydliadau a'r ysgol fel bod modd inni elwa o'u gwytodaeth, eu dawn a'u profiad a bod modd iddynt hwythau gael profiad o weithio gyda'r disgyblion, a dod i ddeall sut y gellir cynllunio ac addasu cyswllt gydag ysgolion ar gyfer anghenion eraill. Pethau syml sy'n bethau bob dydd mewn ysgolion y gellir eu hanghofio neu eu cymhlethu wrth weithio gyda sefydliadau.

Yr allbynnau gwirioneddol

Y canlyniad mwyaf oedd sylweddoli bod angen i'r sefydliadau feddwl yn fwy agored. Nid 'dyma rydym ni'n ei wneud, cewch ei dderbyn neu beidio.' Ond yn hytrach, 'dyma sydd gennym ni i'w gynnig, sut gallwn ni ddefnyddio hyn yn ystyriol o'ch ysgol?'

Hefyd dod o hyd i'r person hwnnw o fewn yr ysgol sy'n fodlon cael y sgysiau hynny gyda chi, a pheidio â rhoi'r ffidil yn y to os na fyddwch chi'n dod o hyd iddynt ar y dechrau. Er mai cysylltiad â'r adran hanes yr hoffech chi ei sefydlu, efallai mai'r adran gelf, Cymraeg, drama neu wyddoniaeth fydd yn dangos diddordeb. Ar ôl iddynt ymuno, bydd adrannau eraill yn ymuno yn fuan!

Gwersi a ddysgwyd

- Siaradwch! Mae trafodaeth yn allweddol er mwyn sicrhau cydweithio llwyddiannus.
- Byddwch yn empathetig. Efallai eich bod wedi bod yn gwneud hyn



ers amser maith ond mae'n bwysig gweld pethau trwy lygaid pobl eraill.

- Gwrandewch! Mae plant yn aml yn cael eu hanwybyddu wrth gynllunio profiadau. Gwrandewch arnynt, y plant yw'r rhai fydd yn defnyddio eich sefydliad!
- Byddwch yn barod i newid. Efallai nad yw eraill yn gweld eich sefydliad yn yr un ffordd ag yr ydych chi'n ei weld. Byddwch yn barod i newid eich arferion gwaith i ddarparu ar gyfer eraill.

Camau nesaf

Rydym bellach yn gweithio gydag un o'n sefydliadau i gyflwyno'r

prosiectau a ddyfeisiwyd ar y cyd ag ysgolion eraill, gan ddefnyddio'r gweithgareddau a'r adnoddau y gwnaethom eu cynllunio a'u creu. Hyd yn hyn, rydym wedi gweithio gyda 4 ysgol arall ac yn gobeithio gweithio gyda mwy y flwyddyn nesaf.

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau neu i drafod mwy ar strategaethau "mabwysiadu cydfuddiannol" cysylltwch â Derfel Thomas ar thomasi170@hwbcymru.net

Tŷ Tredegar:

Treialu'r Rhaglen i Ysgolion

Crynodeb

Nid oedd gan Dŷ Tredegar ddarpariaeth i ysgolion. Roedd lansio'r cwricwlwm newydd yn gyfle delfrydol i ddechrau'r ymgysylltiad hwnnw.

Cefndir

Rydym yn amgueddfa tŷ hanesyddol, a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd cysylltiad cynhenid rhwng y teulu hanesyddol a datblygiad yr ardal drefol, gan ddarparu ymdeimlad cryf o gynefin. Nid oes un person penodol yn gyfrifol am addysg, ond mae'r staff yn ystyried ei bod yn bwysig cael darpariaeth i ysgolion. Yn 2022 dechreuwyd ar y broses drwy gynnal diwrnod i athrawon i feithrin perthynas â'r dalgylch lleol a'u cyflwyno i'r safle.

Yr her

Heb ddarpariaeth i ysgolion, roeddem yn cychwyn o ddim. Mewn gwirionedd roedd hynny hefyd yn gryfder.

Dulliau gweithredu

Aethom ati i gysylltu â'r ysgolion lleol, gan ddefnyddio'r cysylltiadau a wnaed yn ystod y diwrnod i athrawon cyn y gwyliu, i gael syniad o'u hanghenion hwy ac i gael gwybod sut y gallem ni eu cefnogi, gan fod yn onest am yr adnoddau oedd ar gael i ni. Roedd arnom ni eisiau sefydlu panel o athrawon, gydag athrawon a chyn-athrawon fel arbenigwyr, i weithio gyda ni i benderfynu beth roedd modd i ni ei wneud. Byddai'r ysgolion wedyn yn helpu i dreialu'r hyn a ddatblygwyd.

Y canlyniadau a fwriadwyd

Datblygu agweddau newydd ar gyfer ymweliadau hunan-dywys i Dŷ Tredegar sy'n ysbrydoli'r ymwelwyr, gan sefydlu cysylltiadau cryf â'r ysgolion lleol.

Yr allbynnau a fwriadwyd

- Panel o athrawon.
- Cytundeb panel athrawon.
- Gweithgareddau yn seiliedig ar y themâu a awgrymwyd gan y panel.

Rhwysterau a phroblemau

Ar ben ein swyddi, mae wedi bod yn anodd cael yr amser i ymroi yn llwyr i'r prosiect. Cynhaliwyd mwy o sesiynau gyda'r panel athrawon nag a ragwelwyd, er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y Tŷ. Gyda chyfnod prysur y Nadolig, colodd pawb amser datblygu.

Mae'r athrawon yn dal i weithio ar sut i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd, gyda hyfforddiant yn digwydd wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Roeddem i gyd yn ceisio cael ein traed danom ac wedi rhagweld y byddai arnynt eisiau defnyddio dull newydd, ond nid felly'r oedd hi. Mae arnynt eisiau gwrthrychau, blychau benthyg a themâu a pheynnau y gellid dweud eu bod wedi hen ennill eu plwyf, megis y Fictoriaid.

Nid oedd digon o amser i wneud popeth roeddem ni ei eisiau ei wneud, ond rydym wedi symud ymlaen yn dda, ac wedi gosod sylfaen gadarn.

Y canlyniadau gwirioneddol

- Panel sefydlog o athrawon – yr aelodau allweddol yw 4 athro, 3 gwirfoddolwr a 3 aelod o staff.
- Cytundeb panel athrawon.
- Canllaw i ysgolion ar gyfer ymweliad i Dŷ Tredegar.
- Yr offer, a'r wybodaeth i arwain eu hymweliadau eu hunain yn rhyngor 2023 ar lwybr gwrthrychau allweddol drwy'r Tŷ, "Tai a Chartrefi – yr Hen Ffordd o Fyw", a'r "Fictoriaid".
- Dealltwriaeth dda o'r hyn mae'r ysgolion ei angen, gyda rhestr o themâu a thestunau i'w cyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd i ddod.
- Diddordeb gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ehangach yn yr hyn rydym ni'n ei wneud.

Yr allbynnau gwirioneddol

- Panel athrawon gweithredol a chytundeb.
- Set o adnoddau i ysgolion eu defnyddio – ar gyfer ymweliadau hunan-arweiniol, ac astudiaethau rhagarweiniol. Mae'r rhain yn amrywio o gortynnau gwddf i athrawon, gwrthrychau i ddod o hyd iddynt, pecynnau fforiwr, a gweithgareddau o gwmpas y tŷ i sgysiau am y ffordd roeddem ni'n arfer byw, cynaliadwyedd ac ati.



Peidiwch â rhoi eich bryd ar gyflawni unrhyw waith gydag ysgolion dros gyfnod y Nadolig!

Gwersi a ddysgwyd

Mae'n amhosib dyfalu beth fydd ei angen! Mae cysylltu â darpar ddefnyddwyr a defnyddwyr y dyfodol yn allweddol er mwyn sicrhau eich bod yn datblygu'r hyn sy'n mynd i'w cefnogi. Mae angen i chi fuddsoddi mewn datblygu cysylltiadau os ydych am sicrhau darpariaeth deilwng. Roedd hefyd yn helpu ein bod yn ymrwymo i'r panel am yr hirdymor, nid ar gyfer y prosiect hwn yn unig.

Roedd bod yn onest gyda'r athrawon yn golygu eu bod yn deall ein cyfyngiadau a bod yr hyn a gyflawnwyd erbyn cyfarfod y panel ar 18 Ionawr yn creu argraff arnynt.

Mae cymdeithasu a grymuso'r athrawon i ymweld yn bwysig er mwyn iddynt allu cefnogi'r disgyblion yn y ffordd orau, i sicrhau'r ymdeimlad hwnnw o berchnogaeth.

Roeddwn i'n synnu mor sylfaenol oedd cais yr athrawon – er enghraifft,

y Fictoriaid, yr hen ffordd o fyw a gwisgoedd. Roedd hyn yn ffodus, oherwydd yn realistig nid oedd yr amserlen yn caniatáu i ni wneud llawer o waith ymchwil manwl ond mae'n rhoi man cychwyn cryf i ni. Bydd angen mwy o ddatblygiad ar themâu eraill, ond rydym ni wedi cyflwyno hyn yn raddol dros y blynyddoedd nesaf, a gyda chefnogaeth y panel – er enghraifft, gwrthdaro a phrotest.

Er fy mod wedi canolbwyntio ar ddysgu ar y safle, daeth yn amlwg bod angen llawer o gymorth cyn yr ymweliad ar yr ysgolion, i helpu gyda hyder. Rydym yn gweithio ar ffyrdd o wneud hyn, gyda deunydd i'w fenthgy cyn ymweliadau, llinellau amser, mapiau ac ati.

Oherwydd capasiti rydym ni wedi dal yn ôl rhag sefydlu darpariaeth addysg. Roedd y cwricwlwm newydd wedi rhoi rhywfaint o ysgogiad inni,

ond mae'r grant yn wirioneddol wedi ein symud yn ein blaenau'n ymarferol.

Peidiwch â rhoi eich bryd ar gyflawni unrhyw waith gydag ysgolion dros gyfnod y Nadolig!


Camau nesaf

Bydd y prosiect yn parhau, gyda'r panel yn cyfarfod drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn adolygu ac yn mireinio'r hyn sydd wedi'i ddatblygu hyd yn hyn, ac rydym wedi meddwl am llawer o themâu gwych y byddwn yn parhau i'w cyflwyno fesul cam.

Rhagor o wybodaeth

nationaltrust.org.uk/visit/wales/tredegar-house

Contents



- 03 Introduction**
Robin Johnson

- 38 Responding to the New Curriculum**
Lowri Ifor
Amgueddfa Cymru

- 40 Embedding the New Curriculum in the Learning Programme**
Mari Fforde
Hay Castle Trust

- 42 Mindfulness at the Museum: A wellbeing Project at the Egypt Centre, Swansea**
Hannah Sweetapple
Learning and Engagement Officer,
The Egypt Centre: Museum of Egyptian Antiquities

